

ECO'R WYDDFA

RHIF 277

EBRILL 2001

PRIS 40c

Dilyn Eu Taid



Er fod Wavell Roberts o Lanrug wedi bod yn hysbysebu yn yr 'Eco' ers chwarter canrif fel 'pen cigydd y fro', gallai'r teitl gael ei ddwyn oddi arno yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf – a hynny gan ddau o'i wyron! Mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Cig Prydain ganol fis Mawrth, enillodd y cefndryd, Sion Jones a Gethin Jones fedal efydd am eu biffbyrgars; a hynny ar y cyfle cyntaf iddynt gystadlu. A bu'r ddau wrthi'n brysur yn paratoi heb unrhyw gymorth gan taid 'chwaith!

Mae Wavell, wrth gwrs, wedi hen arfer ennill gwobrau lu am ei wahanol ddanteithion, sy'n cael eu paratoi yn Lanrug, ac sy'n denu cwsmeriaid o bob rhan o Gymry a Lloegr. Yr un fu ei hanes y mis hwn hefyd. Roedd y gystadleuaeth wedi ei threfnu i holl gigyddion gogledd Cymru, sef rownd gynderfynol Pencampwriaeth Cymru. Bydd y rownd gynderfynol arall – i gigyddion siroedd de Cymru, yn cael ei chynnal yn Abertawe ganol fis Ebrill. Y gobaith yw y bydd enillwyr y gogledd a'r de yn cyfarfod yn y ffeinal yn Llanellwedd yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol, ond ar hyn o bryd mae amheuaeth a fydd y gystadleuaeth yn cymryd lle oherwydd y pryderon ynglŷn â'r clwy traed a'r genau sy'n ymledu drwy Bowys.

Yn Llandudno y cynhaliwyd y gystadleuaeth i siroedd y gogledd, a hynny ar y nos Fercher yn dilyn y storm eira ddychrynlyd gydol y diwrnod. Methodd un o'r beirniaid â chyrraedd, ac yr oedd chwech o gigyddion eraill wedi gorfod tynnu allan o'r gystadleuaeth o

achos y tywydd. Ond er gwaethaf y trafferthion, roedd bron i ddau gant o gystadleuwyr yn llenwi Neuadd Gynhadledd Llandudno – hanner cant yn fwy na'r llynedd, a derbyniodd y mwyafrif ohonynt ganmoliaeth uchel gan y beirniaid. Fel arfer, rhyw 25% o'r cystadleuwyr sy'n cyrraedd safon digon uchel i dderbyn medal aur: hynny yw, ennill 90 o farciau neu fwy allan o gant. Dyfarnwyd 79 medal aur yn Llandudno, a daeth tair ohonynt i Lanrug. Enillodd Wavell fedal arian hefyd, ac wrth gwrs, daeth Sion a Gethin a medal efydd oddi yno.

I'r rhai sydd wedi hen arfer prynu yn siop Wavell yn Lanrug, does dim angen dweud fod ei sosej traddodiadol wedi ennill medal aur unwaith eto. Roedd ei bastai borc a thwrci o fewn marc i ennill yr aur, ond daeth llwyddiant iddo gyda'i bastai borc a'i 'supreme' cig moch a chyw iâr. Ac os oes anrnoch angen gwybod beth yn union ydi'r 'supreme' cig moch a chyw iâr, wel brysiwch am siop Wavell fory nesa' cyn i'r cyfan werthu allan.

Traed a'r Genau

Gwyddom bod rhai ffermwyr bro'r Eco wedi cael colledion mawr trwy haint y traed a'r genau. Mae amryw wedi colli anifeiliaid oedd yn cael eu magu ar Ynys Môn. Mae'n anodd gwybod beth i'w ddweud wrth gwrs, ond does ond gobeithio y bydd yr haint yn cael ei ddileu cyn iddo ymledu ymhellach eto. Cydymdeimlwn â'r rhai sydd wedi colli anifeiliaid, a hyderwn na fydd y clwyf yn cyrraedd y fro hon gan effeithio yn waeth fyth ar ffermydd yr ardal. Gobeithio y gwnawn ninnau, drigolion y fro, ynghyd â phawb sy'n ymweld â'n hardal, ddal i gymryd sylw o bob cyngor a roddir er mwyn lleihau unrhyw berygl o ledaenu'r clwyf.

Ymddeol Wedi Oes o Waith

Mae un o wŷr busnes adnabyddus yr ardal newydd ymddeol wedi iddo fod ynghlwm â'r busnes teuluol am fwy na 65 o flynyddoedd. Roedd Mr Myrddyn Pritchard, Central Garage, Llanberis yn dathlu ei ben-blwydd yn 82 oed ym mis Chwefror, ychydig ddyddiau wedi iddo ymddeol o'i waith fel trefnydd angladdau yn Llanberis a'r pentrefi cyfagos. Roedd wedi bod yn rhan o fusnes teuluol E.W. Pritchard (a sefydlwyd gan ei ewythr, Nedw) ers iddo adael yr ysgol yn 14 oed. Ar wahan i ambell gyfnod byr o salwch mae wedi bod wrth ei waith ar hyd y blynyddoedd, ac mae'r ffaith ei fod wedi dal ati cyhyd yn awgrymu mor bwysig fu ei waith iddo.

Ond, er iddo ymddeol yn swyddogol, amser a ddengys a fydd yn gallu gwneud hynny go iawn. Mae'r busnes wedi ei werthu erbyn hyn, ond gan fod ei ferch, Jane, yn rheoli swyddfa i'r perchnogion newydd mae ei thad yn dal i gadw llygad ar bopeth sy'n digwydd. Mewn gwirionedd mae'n dal i fynd draw i'r gwaith bob dydd. A chan fod Gwynfor Jones, a fu'n gweithio gydag ef am yn agos i ugain mlynedd, hefyd yn aros gyda'r cwmni, mae'n anodd gan Myrddyn weld bod dim wedi newid! Ers ei ymddeoliad mae wedi bod ym mhob angladd a drefnodd y cwmni, er mwyn sicrhau mae'n debyg fod popeth mewn trefn! Hawdd credu ei bod yn anodd gollwng yr awenau wedi cyfnod morfaith.

Yr oedd ei ewythr wedi sefydlu'r busnes mor gynnar â 1900 (os nad cyn hynny) yn Stryd y Wyddfa, Llanberis. Cludo nwyddau o bob math gyda throl a cheffyl a wnâi ar y cychwyn, a chael gwaith yn fuan gan y cyngor plwyf i gario cerrig ar gyfer trwsio llwybrau a ffyrdd. Aeth ati wedyn i gario pobol hefyd mewn 'closed carriages' a dynnwyd gan geffylau. Byddai galw ar y pryd am gerbydau felly mewn angladdau. Yn 1910 prynodd ei hers gyntaf, hers geffyl newydd sbon a gafwyd yn Birmingham, ac a gludwyd i Lanberis efo'r trên. Byth ers hynny mae'r cwmni wedi bod yn ymwneud ag angladdau, gan ddarparu yn y blynyddoedd cynnar hers a cheir i wahanol seiri lleol cyn

ymgymeryd wedi hynny â'r holl waith o drefnu angladd.

Ond nid dyna unig waith y cwmni chwaith. Ychydig fisoedd wedi geni Myrddyn yn 1919 prynodd ei ewythr siop fawr – 'department store' ar Stryd Fawr Llanberis a'i throï yn Central Garage. Wedi hynny fe dyfodd y busnes. Tua 1926 prynwyd y lori gyntaf, a bu'r cwmni'n rhedeg lorïau wedyn tan y 70au. Prynwyd ambiwlans yn 1935, a chafwyd gwaith gan y Chwael a'r Cyngor Sir nes i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ddod i fodolaeth yn 1958. Dechreuwyd rhedeg bysiau moethus yn 1948 dan yr enw Snowdonia Coaches (er bod y cwmni wedi bod yn berchen ar ddau fws Garford a fyddai'n cynnal gwasanaeth rhwng Llanberis a Chaernarfon mor gynnar â 1923). Rhodod y gorau i'r bysiau yn y 70au hefyd. Ac wrth gwrs, mae ceir y cwmni



wedi cario pobol i bob cwr o Brydain dros y blynyddoedd. Ond yn fwy diweddar y gwaith o drefnu angladdau fu'r prif waith.

Busnes teuluol go iawn fu'r cwmni o'r dechrau. Yr oedd dau frawd a chwaer i Myrddyn yn rhan o'r busnes gyda'u hewythr. Mary fyddai'n cadw'r llyfrau ac yn gofalu am werthu'r petrol yn y Garage; efo'r ceir yn bennaf y byddai Thomas, tra roedd Ted yn bennaf gyfrifol am y lorïau a'r bysiau. Bu farw Nedw yn 1963, ac erbyn hyn mae'n chwith meddwl mai Myrddyn a'i chwaer Louie yw'r unig ddau sydd ar ôl o deulu mawr.

Dymunwn i Mr Pritchard iechyd i fwynhau ei ymddeoliad gan ddiolch iddo am ei wasanaeth gwerthfawr i'r fro am gynifer o flynyddoedd.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 277
EBRILL**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:

ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, EBRILL 16

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, EBRILL 26

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Mai Mehefin Gorffennaf Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Ebrill 16 Mai 21 Mehefin 18 Awst 27 Medi 17 Hydref 22 Tachwedd 19	Ebrill 26 Mai 31 Mehefin 28 Medi 6 Medi 27 Tachwedd 1 Tachwedd 29	Deiniolen Brynrefail Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Mr W O Williams Mr Myrddin Jones Mr Geraint Elis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,
Yn dilyn ffair greffttau hynod o
lwyddiannus yn ystod Wythnos
Garnifal Penisarwaun fis Awst y
llynedd, penderfynwyd y
byddai'n dda cynnal
gweithgaredd tebyg eto er
mwyn llwyfannu doniau
crefftwy'r y fro.

Ar nos Wener, Ebrill 6 felly
fe'ch gwahoddir chi'n gynnes
atom i Neuadd yr Eglwys ym
Mhenisarwaun ar gyfer Noson
Caws a Gwin, lle bydd nifer o
grefftwy'r lleol yn arddangos ac
yn gwerthu eu gwaith.
Gobeithir hefyd barhau gyda'r
ffair greffttau rhwng 10 a 4 y
prynhawn y diwrnod canlynol
(dydd Sadwrn, 7 Ebrill).

Pe bai unrhyw un ohonoch
yn dymuno arddangos a/neu
gwerthu eich creffttau yn ystod y
gweithgaredd hwn, byddai
croeso i chi gysylltu â ni yn
Eglwys Santes Helen, neu ffonio
Huw Tegid ar (01248) 388006.

Edrychwn ymlaen at eich
croesawu i'r gweithgaredd hwn,
yn grefftwy'r, pentrefwyr a
thrigolion y fro.

Cofion gorau,

Roberts Griffith
Pwyllgor Carnifal Penisarwaun

Annwyl Olygydd

Cyfes Newydd o Dudley(S4C)
Unwaith eto rwyf yn awyddus i
grwydro Cymru a chwrdd â
mwy o gymeriadau lliwgar a
diddorol i rannu rysetiau a
chael sbort. Os oes diddordeb
gennych chi neu os gwyddoch
chi am unrhyw rai a fydded'n
addas ar gyfer y gyfres nesa,
cysylltwch â fi.

Hoffwn glywed am:

- 1) Rysetiau - rhai traddodiadol,
teuluol neu rai unigryw i
ardal/bro;
- 2) Cymeriadau sy'n adnabyddus
am eu cynnyrch (gwin,
caaceni...) a phobol sy'n
cystadlu mewn sioeau gyda'u
jam, picls, llysiau ayyb;
- 3) Unrhyw ddigwyddiadau
arbennig yn yr ardal sy'n
ymwneud â bwyd;
- 4) Ceginau diddorol ac unigryw
yn yr ardal - yn geginau
cartre a cheginau busnesau
bwyd;
- 5) Sialens neu her - Unigolion
neu grŵp o bobol sydd angen
help ac arweiniad i baratoi
bwyd ar gyfer achlysur
arbennig. Os am lunio
gwledd ar gyfer criw o
ffrindiau; am greu argraff ar y
wraig, y gŵr neu'r cariad ar
achlysur arbennig, neu am
fwydo Côr Meibion lleol, gall
Dudley ddod i helpu! Po
fwyaf dwl a diddorol y
sialens, gorau i gyd.

Cysylltwch â mi cyn gynted a
phosib. Byddwn yn fflimio dros
yr haf.

Dudley, Teledu Opus,
60 Severn Grove,
Pontcanna,
Caerdydd CF11 9EP.

Neu ffoniwch ni ar 029 20
223456

Annwyl Ddarllenwyr,

A oes gennych brofiad neu stori
sydd wedi bod yn uffern ar y
ddae'r i chi? Gall fod yn stori
ddoniol, ddifrifol, ddiridynol
neu'n hanesyn sy'n codi
embaras arnoch chi. A fydded
chi'n fodlon rhannu'ch
profiadau gyda ni a gweddill
gwrandawyr Radio Cymru?

Bydd Sarra Elgan Rees yn

cyflwyno'r ail gyfres o 'Uffern ar
y Ddaear' ar y gwasanaeth
cenedlaethol cyn bo hir. Os oes
stori ddiddorol, ryfeddol,
erchyll neu wallgo' gennych chi,
cysylltwch â ni yn:


Torpedo
8 Westbourne Crescent
Eglwysnewydd
Caerdydd CF14 2BL

Gan edrych ymlaen at
rannu'ch uffern ar y ddaear.

Yn ddisgwyllgar,
Ceri Wyn Richards

DIOLCH

Ar ei ymddeoliad, dymuna
Myrddyn Pritchard, Central
Garage, Llanberis ddiolch yn
fawr am bob cefnogaeth a
gafodd gan drigolion bro'r Eco
dros yr holl flynyddoedd a
gafodd yn y Garage ac fel
trefnydd angladdau yn yr ardal.
Mae hefyd yn dymuno'n dda i
berchnogion newydd y busnes
sydd am gadw'r enw E.W.
Pritchard a fu ar y busnes ar hyd
y blynyddoedd.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Piano Arbennig

Yn ystod y gaeaf bu Marcia Thomas, Dolwerdd, Llanberis ar fordaith ar y QE2, gan alw yn yr Ynysoedd Dedwydd a Madeira. Cafodd ganiatâd, ar ôl cryn berswâd gan ei ffrindiau, i ganu piano go arbennig, sef yr un a ddaeth oddi ar y llong enwog y Queen Mary. Roedd yn offeryn hardd iawn o bren 'walnut' golau, a'r donyddiaeth yn hyfryd dros ben.

Denodd yr alawon Cymreig a ganodd Marcia Gymry o bob rhan o Brydain i ymgynnull o gwmpas y piano, ac yn eu plith, y delynores broffesiynol o'r Unol Daleithiau, Mary Amanda. Roedd wedi gwirioni gyda'r alawon gwerin a'r noson ganlynol bu'n diddanu'r teithwyr â rhai o hoff alawon Cymru ar y delyn, diolch i Marcia.

Teimlai'r criw o Wynedd yn

gartrefol iawn ar y fordaith yma, gan fod arweinydd y gerddorfa, Wyn Davies, hefyd yn Gymro. Y grŵp clasurol poblogaidd oedd 'Celticana', pedair merch ifanc o Dde Cymru sy'n astudio cerddoriaeth yn Llundain. Mae'n siŵr fod y mwyafrif o'r darllenwyr yn gwybod am Nerys Richards (soddgrwth) a enillodd y Ruban Glas i offerynwyr ddwywaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd ganddynt hwythau drefniant o alawon gwerin Cymreig yn eu cyngerdd olaf.

Er chwilio a chwilio ni ddaethom ar draws mor-deithwyr enwocaf y fro, Myra a Selwyn Griffith, chwaith. Ond wedi dychwelyd adref gwelsom yn yr Eco eu bod ym mhen arall y byd yn mwynhau cwmni a chanu Cymry Patagonia.

M.W.R.



Marcia yn canu piano'r 'Queen Mary'

Cyngor Cymuned Llanberis

Mae'r Cyngor angen

GWEITHIWR ACHLYSUROL

i wneud gwaith cynnal a chadw
a gwaith tacluso o fewn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â'r Clerc,
Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug
Ffôn: (01286) 673515

Etholiad Cyffredinol

Etholaeth Caernarfon

rhowch bleidlais i

Hywel
WILLIAMS

gwasanaeth i bawb yn lleol -
llais cryf yn Llundain



Hywel Williams

Cyhoeddwyd gan Walis George, 8 Stryd y Castell, Caernarfon
ar gyfer Hywel Williams, 15 Rhes Segontium, Caernarfon



Plaid Cymru



O SIAMBAR SELWYN

Yn ystod y dyddiau diwetha' 'ma mae amryw wedi gofyn i mi pryd y bu'r argyfwng clwy'r traed a'r genau ym mhlwyf Llanddeiniolen ddiwetha'.

Dyma gofnod o lyfr cofnodion Cyngor Llanddeiniolen Tachwedd 22, 1957.

'Oherwydd clwy'r traed a'r genau, dywedodd y Clerc iddo ymgynghori â rhai o'r aelodau parthed cyflogi y gweithiwr. Gan fod llwybrau'r plwy ar gau, ni fedrai y gweithiwr ddilyn ei ddyletswyddau ac o dan yr amgylchiadau penderfynwyd terfynu ei wasanaeth ac iddo weithio wythnos lawn pan ail-agorid y llwybrau.'

Dwi'n siŵr fod amryw ohonom yn cofio y llosgi ar dir Glandinorwig (Felin Sam). Chwaer fy mam (Kate) a Wil oedd yn ffermio yno ar y pryd, a mawr fu'r loes a'r poendod dros y cyfnod.

Mae Norman Closs Parry yn cofnodi'r cyfnod yn ei gerdd 'Haint Traed a'r Genau' yn ei gyfrol 'Y Wefr o Weld' (Cerddi

gyda llaw a ddaeth yn bur agos at ennill y Goron Genedlaethol yn 1992).

'Tanio... fflamau tew yn llyfu'r cymylau...

Sŵn suo, arogl blew a saim yn codi cyfog,

mwg trioglyd yn treiglo fel amdo du dros y cwm.

Yr haint oedd byrdwn paderau a phwnc pob caban a phonc.

Daeth 'Diolchgarwch' fel erioed i'r cwm yr Hydref hwnnw;

clywid Tomos Disgwylyfa,...

'Er i'r praid ddarfod o'r gorlan er nad oes ychen yn y beudai eto...

Ogleuaf y drewdod, clywaf y clindarddach,

gwelaf y nosweithiau cochliw

a'r caeau gwag.'

Gobeithio na welwn y dyddiau dy na'r caeau gwag ym mro'r Eco eto.

Gan fod llyfr cofnodion y Cyngor yn agored gen i 'Tân' gwahanol a gafwyd yn 1967 pan

symudwyd ymlaen i gael Clwb yfed ym Mhenisarwaun.

'Cynhaliwyd Cyngor Plwyf arbennig yn Ysgol Deiniolen nos Iau, Gorffennaf 6, 1967 ar gais y Cadeirydd y Parchedig J. Price Wynne i drafod mater y Clwb Yfed a oedd yn cael ei adeiladu ym Mhenisarwaun. Daethpwyd i'r penderfyniad â ganlyn ac i'r Clerc, y Cadeirydd a Mrs Larsen gyflwyno'r cyfryw ynghyd â deiseb i Glerc y Cyngor Sir.

1. Y mae gwrthwynebiad cryf yn erbyn y fath glwb ym mhentref Penisarwaun, ac yn holl bentrefi'r plwyf.

2. Nid oes carthffosiaeth gymwys yn y pentref. Amheuir yn fawr a ellir dibynnu ar 'Septic Tank' i dderbyn y carthion, gan fod y tir ar rai adegau yn cael ei orlifo.

3. Nid yw'r ffordd o Groesffordd Racca i King Arthur yn gymwys i dderbyn rhagor o drafnidiaeth.

4. Nid oes heddeiddwch yn byw yn y pentref.

5. Byddai adeiladu Clwb o'r natur hwn yn milwrio yn erbyn holl draddodiadau'r cylch.

6. Datganwn ein siomedigaeth na roddwyd hysbysiad cyhoeddus am y bwriad i sefydlu Clwb fel y gallem fod wedi datgan ein gwrthwynebiad ynghynt.

7. Yn wyneb yr holl ystyriaethau uchod, a chan wybod y gall hyn olygu talu iazwndal, fel y lleiaf o ddau ddrwg, pwyswn yn daer ar i'r Pwyllgor Cynllunio ail-ystyried y mater gyda'r rhagolwg o dynnu'r hawl yn ôl.

Aflwyddiannus fu'r gwrth-

wynebiad wrth gwrs, ond mi fuo 'na 'brotest danllyd' - yn llythrennol felly. Dwi'n cofio Gwilym Owen yn fy ffonio fi yn gynnar un bore a gofyn i mi ei gyfarfod ger y Clwb am fod yna ffrwydrad wedi bod yno. Fe ffilmiwyd yr amgylchiad ac mi es innau ar ffilm, ar ruthr gwyllt, i Stiwdio Pontcanna, Caerdydd er mwyn ei dangos ar 'Y Dydd' y noson honno.

Cyn bo hir mi fydda i'n ffarwelio â Llyfrau Cofnodion Cyngor Llanddeiniolen. A wyddoch chi be? Mi fydd hi'n chwith hebddyn nhw. Mae 'na sawl digwyddiad o fewn y plwy yn dwyn atgofion yn ôl i mi, wel dros bron i hanner canrif. A choeliwch chi fi, ma' 'na dipyn o newid wedi bod yn yr hen blwy' hefyd.

Bydd rhai yn fy holi, beth fu'r newidiadau pwysicaf? Wel, heb os - cau y Chwarel a chwalu Stad y Faenol. Tua ugain o lampau cyhoeddus oedd yn y plwy' pan ddois i'n glerc yn 1955. Bellach mae na'n agos i fil. Beth bynnag a wnaethom dros yr hanner canrif ddiwetha' gallwn ymfalchïo yn y ffaith i ni ddod a'r hen blwy' o'r tywyllwch i'r goleuni.



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo


Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

**PEIDIWCH A GORI
AR STORI
ANFONWCH HI
I'R ECO**

Oed yr Addewid

Does neb yn rhy hen i ddysgu'r gwirionedd



9.00

Ffilm Sul y Pasg

Transl888/889 www.s4c.co.uk

S4C

Un Funud Fach Y CLWYF

Mae'r dasg ddigalon o ladd miloedd o ddefaid iach ar Ynys Môn yn dechrau heddiw. Er mwyn ceisio atal Clwy'r Traed a'r Genau rhag ymledu ymhellach penderfynwyd difa'r defaid iach o fewn yr ardaloedd lle mae'r clwyf wedi gwreiddio. Mae'n amser anodd dros ben i'r ffermwyr a'u teuluoedd, ac mae'n anodd i'r gweddill ohonom ddychmygu eu gofid wrth iddynt weld diadelloedd yn mynd i'r lladd-dy. Mae'n ddigon drwg pan fo raid difa'r anifeiliaid a drawyd gan yr haint. Mae meddwl am ladd anifeiliaid iach yn waeth byth, ond y gobaith yw y bydd hynny'n arbed mwy fyth o anifeiliaid rhag yr haint yn y pen draw.

Does ond gobeithio bod y gwyddonwyr wedi ei deall hi'n iawn, ac y bydd y lladdfa erchyll yn cyflawni'r nod. Mae rhai yn holi a oes rhaid cymryd camau mor eithafol. Ond mae eraill yn derbyn bod rhaid gwneud hyn os mai dyma'r unig ffordd o gael gwared â'r clwyf. Bydd llawer o ffermwyr yn gorfod aberthu eu defaid yn y frwydr yn erbyn yr haint. Fedrwn ni ddim dechrau deall eu poen o golli diadelloedd y buont yn eu meithrin ers blyneddau. Does ond gobeithio na fydd yr aberth yn ofer. Byddai'n ofnadwy pe na bai'r lladdfa yn cyflawni ei fwriad o atal y clwyf rhag ymledu ymhellach eto.

Peth mawr yw'r parodrwydd i aberthu er mwyn eraill. A rhaid edmygu'r ffermwyr am eu parodrwydd i wneud hynny. Daw'r Pasg yn y man, a ninnau'n cofio'r aberth mawr ar ben Calfaria. 'Arweiniwyd ef fel oen i'r lladdfa, ac fel y bydd dafad yn ddistaw yn llaw'r cneifiwr, felly nid agorai yntau ei enau.' Pwy all ddechrau deall maint cariad Duw, yn rhoi ei Unig Fab, yr Oen di-fai a glân, i farw er mwyn i ni gael byw. A rhyfeddwn at barodrwydd yr Oen diniwed ei hun i farw trosom, i gael gwared â'r clwyf difaol sy'n ein bygwth.

JOHN PRITCHARD

O BEN LLYN – MIS MAWRTH 2001



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CLWB SNWCER. Yn dilyn Cyfarfod Blynnyddol y Clwb hoffem ddiolch i'r canlynol: Mr Andro Griffiths am archwilio y llyfrau; i Mr Stan Roberts a Mr Hefin Jones am ofalu am y byrddau, ac i'n Trysorydd Mr Irfon Thomas am ei waith drwy'r flwyddyn.

I godi arian gobeithiwn gynnal raffl yn yr haf. Diolch i'r aelodau am eu cefnogaeth ac am waith clodwiw gan Gapten y Gleision a'r Cochion hefyd.

DIOLCH. Hoffai Elfed Morgan Morris, Llechwedd, ddiolch o waelod calon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

HOLIADUR 'POBL MEWN CYMUNEDAU'. Dylai unrhyw berson sydd wedi derbyn holiadur i'w llenwi oddi wrth Gyngor Gwynedd (ond heb wneud hynny eto) ei llenwi a'i dychwelyd i'r Cyngor gyda'r troad. Bydd eich barn ynglŷn â'r cynllun yn hanfodol ar gyfer paratoi'r ffordd ymlaen.

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, Chwefror 19 cyfarfu'r aelodau yn Festri Ebeneser. Ein gwraig wadd oedd Eirian Roberts o Gwmni Clinique, Debenhams. Dewiswyd Eirian Jones fel model a chawsom

weld effeithiau gwahanol eitemau o golur ar ei chroen. Mwynhawyd y noson yn fawr gan bawb. Cynhelir cinio i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Antur Waunfawr ar Fawrth 19.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd y Gymdeithas nos Lun, Chwefror 26 yn Festri Ebeneser. Ein gŵr gwadd oedd Mr Len Porter, Penisarwaun.

Cawsom noson ddifur iawn yn gwrandao arno'n dweud ei hanes ac yn arddangos y ffyn a wnaeth dros gyfnod o amser. Roeddynt yn

werth eu gweld – wedi eu cerfio ar siapiau gwahanol anifeiliaid – ci defaid, alarch, carw, sgyfarnog, ayyb. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Iona Richards, y Llywydd.

CAPEL CEFN Y WAUN

Nos Sul, Mawrth 18 cyflwynodd y gweinidog gopi o *Caneuon Ffydd* i Mrs Sallie Lewis, aelod hynaf yr Eglwys. Dathlodd Mrs Lewis ei phen-blwydd yn 90 oed fis Awst diwethaf a hi yw un o'r aelodau mwyaf ffyddlon.

Cofiwn fel y bu i'w mam, Mrs Jane Ann Owen, Tanyfoel, dderbyn llyfr emynau o law'r diweddar Barch John Price Wynne pan ddathlodd hi ei phen-blwydd yn 90 yn y Saithdegau.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partion, triapiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CABAN Y CWM

Cwm-y-glo

Dosbarth Brodwaith
bob nos Lun am 7.30 o'r gloch

Clwb Cyfri Caloriau
bob nos Fawrth am 7.00 o'r gloch

Mae'r Caffi ar agor am brydau a byrbrydau o ddydd
Llun tan ddydd Gwener rhwng
9-4 o'r gloch

CROESO I BAWB

Cynllun Compost

Mae modd i chi ddod â gwastraff gwyrdd o'ch gerddi atom i'w ail-gylchu.

Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion

Manylion pellach:

Ffôn/Ffacs: (01286) 872104

e-bost: menter@menterfachwen.co.uk

y wê: www.menterfachwen.co.uk



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Cymdeithas Y Plant (The Children's Society)
Ymwelwyr annibynnol

Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?

Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyleithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a phobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth.

Os oes gennych ddiddordeb:

Cysylltwch a ni yma ar 0800 085 2274

CHWILOTA

TYDDYNNOD CLWT Y BONT A'R BIGIL



Addewais y mis diwethaf fynd i chwilota mwy am hanes rhai o'r tyddynnod aml-enw oedd yn swatio yng nghysgod y creigiau rhwng y Bigil a Brynrefail. Roeddwn hefyd wedi bwriadu tynnu lluniau rhai ohonynt, sydd bellach yn adfeilion, ond daeth clwy'r traed a'r genau i roi diwedd ar grwydro llwybrau, a bydd yn rhaid disgwyl tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gael lluniau addas.

Ardal Bwlch y Rwdan / Fron Goediog / Bryn Griafolen sydd dan sylw ond, fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf, mae'n anodd iawn penderfynu pa enw sy'n perthyn i ba dyddyn. Efallai'n wir fod amryw o'r tyddynnod yn cario'r un enw am gyfnodau.

Cefais gyfle dros yr wythnosau diwethaf i chwilio yng nghofrestrau plwyf Llanddeiniolen ac mewn llyfrau cyfrifon perthynol i Stâd y Faenol. Mae'r llyfrau cyfrifon hyn yn cofnodi rhenti sy'n ddyledus gan dyddynnwyr yr ardal am yr 'hawl' i ddiwyllio ychydig erwau o'r tir comin. Maent yn dyddio o 1814 hyd 1824. Mae llyfrau a thafenni cyfrifon eraill sydd heb ddyddiad arnynt. Fe'u catalogwyd yn yr Archifdy yng Nghaernarfon dan y pennawd *'Account Books of rents due for incroachments at Llanddeiniolen Common.'* Mor gynnar â hyn, pedwar enw'n unig sy'n ymddangos am yr ardal dan sylw.

Gŵr o'r enw Owen Pierce yw tenant fferm Cae Rhedyn, ac mae'n talu unswllt ar ddeg am *'incroachment'* o ddeg acer. Dywedir yn y Llyfr Rhent ei fod *'paying regularly by being added to the rent of the farm.'*

Yr ail enw sy'n ymddangos yw Rowland Abraham (perchennog Bryn Teg). Roedd i fod i dalu £3 y flwyddyn am *'cottage and incroachment called Cae'r Ffynnon'*, ond nid yw'n ymddangos ei fod yn dalwr

cyson! Mae'n ymddangos oddi wrth y llyfrau rhent mai yn 1814 ac 1823 yn unig y talodd y swm llawn. Mae ei daliadau yn amrywio yn y gweddill o'r blynnyddoedd o ddeg swllt i ddwy bunt. Roedd tyddyn Cae'r Ffynnon bryd hynny yn ugain acer.

Gwraig weddw o'r enw Elizabeth Roderick oedd yn byw yn Bryn Gravolen (dyna sut mae'n cael ei sillafu). Prin bod unrhyw dir yn gysylltiedig â'r tŷ; fe'i cofnodir fel *'cottage and garden'*, a thalai ddau swllt y flwyddyn am yr hawl i fyw yno. Ond roedd Bryn Gravolen arall hefyd, o 1823 ymlaen, yn nhenantiaeth gŵr o'r enw John Evans. Ni nodir sawl acer sydd iddo, ond fe'i disgrifir fel *'cottage and inclosure'*, ac yr oedd y rhent yn bunt y flwyddyn. Ar y llyfr rhent mae'r sylw mai *'under the New Act'* yr oedd rhent John Evans wedi ei bennu. Mae hyn yn gyfeiriad uniongyrchol wrth gwrs at y Ddeddf Cau Tiroedd Comin a fu'n achos cymaint o drafferthion ym mhlwyf Llanddeiniolen nes gorfod galw'r milisia i mewn. Sylwer hefyd fod y term am y tir sydd wedi ei hawlio o'r comin wedi newid: nid *'incroachment'* mohono bellach, ond *'inclosure'*.

Felly, roedd Stâd y Faenol wedi dechrau hawlio rhent am ychydig aceri o dir a hawliwyd o'r comin gan wahanol dyddynnwyr cyn Deddf Cau'r Tiroedd Comin. Yn union wedi pasio'r ddeddf honno, gellid disgwyl i fwy o dyddynnod a'u

tenantiaid ymddangos ar y llyfrau rhent, gan fod Stâd y Faenol erbyn hynny yn 'berchen' bron y cyfan o dir Llanddeiniolen. Ond Bryn Griafolen yw'r unig un y cyfeirir ato yn yr ardal dan sylw. Mae hyn yn awgrymu fod gweddill y tyddynnod wedi eu sefydlu rywbyrd ar ôl 1824, ac wedi eu cynnwys yn yr Arolwg a wnaethpwyd o Stâd y Faenol yn 1832.

Mae cofrestrau claddu plwyf Llanddeiniolen yn cadarnhau hyn. O'u hastudio, gellir gweld enwau'r gwahanol dyddynnod yn ymddangos dros gyfnod yn ymestyn o 1819 ymlaen. Bwlch y Rwdan yw'r unig enw nad yw'n ffitio i'r patrwm. Does dim sôn amdano yn llyfrau rhent y Faenol cyn 1824, ond eto, cofnodir claddu dau berson o'r tyddyn cyn hynny. Yn 1819 claddwyd Thomas Rowland (59 oed) ac eto'n 1823 claddwyd Mary Thomas (34 oed). Cofnodir Bwlch y Rwdan eto yn 1829 pan gladdwyd Grace Roberts (72 oed). Ym mhob un o'r tri cofnod, mae enw Bwlch y Rwdan wedi ei sillafu'n wahanol. Dyma'r fersiynau: Bwlch Rwyden, Bwlch Rwdan a Bwlch yr wdan. Beth felly oedd yr enw cywir? A pha dyddyn yn union oedd Bwlch y Rwdan?

Bydd angen llawer mwy o waith ymchwil i ddarganfod hanes y tyddynnod a'u tenantiaid.

Eli Gafod

Yn dilyn y sylwadau am Siop Catrin yn Ninorwig, daeth llythyr gan Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug (gynt o ardal y Fachwen a Dinorwig). Mae hi'n cofio'r siop yn dda, ond doedd hi ddim yn sylweddoli fod Catrin yn gwneud eli at losg eira. Dywed Mrs Williams fod gwneud eli at wahanol anhwylderau yn ddigon cyffredin ers talwm, ac yr oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o ddail gwahanol lysiau. Mae'n cofio fel y byddai camomeil a'r wermod lwyd yn cael eu tyfu yn yr ardd, a'r dail yn cael eu cymysgu mewn dŵr

berwedig i wneud diod a fyddai'n gwella poenau ac anhwylder ar y stumog. Roedd y ddiod hon yn cael ei hyfed yn ddyddiol meddai Mrs Williams: *'fe fyddai yna jwg bach, du ar ben cwpwrdd yn y gegin, a diod o wermod a chamomeil ynddo. Y peth cyntaf a wnâi fy nhad a'm brodyr ar ôl cyrraedd adref o'r chwarel fyddai cymryd diod ohono.'*

Byddai ei mam yng nghyfraith (sef mam y diweddar Ifor Williams) yn gwneud eli gafod. Gafod yw'r enw ar lafar ar 'mastitis', salwch a oedd yn effeithio ar byrsau gwartheg. Y garged yw enw arall a roddir arno. Deuai ffermwyr o Fôn i brynu'r eli arbennig hwn, a chostiai ddau swllt iddynt am lond pot.

Mae Mrs Williams yn cofio'r cynhwysion a'r dull o wneud yr eli. Defnyddid dail ysgaw, dail onnen, dail mieri (y fwyaren ddu), danadl poethion a dail camomeil. Câi'r cyfan eu berwi yn dda mewn dŵr cyn ei hidlo i gael gwared o'r dail. Yna, ychwanegid lard i'r dŵr a'i ferwi eto er mwyn toddi'r holl lard, a'i gael i gymysgu'n dda â sudd y dail. Yna, gadael i'r cyfan oeri. Byddai'r lard yn hel ar yr wyneb, a gellid ei godi a'i roi mewn blychau bychan. Wedyn, câi'r dŵr ei botelu a'i werthu gyda'r eli.

I drin y gafod roedd angen golchi pwrs y fuwch gyda'r dŵr ac yna rhoi'r eli arno wedi ei lapio mewn papur llwyd, a hwnnw wedi ei grasu o flaen tân yn gynharach. Roedd angen mynd drwy'r broses hon ddwywaith y dydd os am wellhad o'r gafod.

Tybed oes rhai eraill o'r darllenwyr yn cofio am feddyginiaethau eraill a ddefnyddid ers talwm - neu sy'n parhau i gael eu defnyddio heddiw?

Cae Pwy Yyg Nghaeathro?

Mae Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug yn cynnig sylwadau ar y cais a wnaed gan ohebydd Caeathro ynglŷn ag ystyr yr enw. Mae'n cyfeirio at



STRYD FAWR LLANBERIS

Manylion pellach am ein holl deithiau:
(01286) 872777

6 Ebrill - Westlife, Manceinion

14-15 Gorffennaf - Robbie Williams, Caerdydd

20-22 Gorffennaf - Robbie Williams, Milton Keynes

16 Tachwedd - sioe Mamma Mia, a siopa Nadolig, Llundain

10 Tachwedd - 2 Rhagfyr - ymweliad 3 wythnos â Patagonia (dim ond lle i 5 ar ôl)

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR



* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar **675190 / 673188**

waith y diweddar Athro Melville Richards, ac yn enwedig y gyfrol 'Enwau Tir a Gwlad' a gyhoeddwyd wedi ei farw.

Yn y gyfrol honno, mae'r Athro Richards yn cynnig mai enw personol a geir yma, sef Iarthro, ac mai cae ym mherchnogaeth y person hwnnw a roes fod i enw'r pentref yn ddiweddarach. Collwyd y llythren 'i' am ei bod yn anodd ei hynganu. Digwyddodd yr un peth yn achos Tre(i)athro ym Mhenfro, ac aeth Iarddur yn Tre(i)arddur ym Môn.

Darllenwch 'Lleu'.

Nid yn aml y bydd gohebydd yn annog ei ddarllenwyr i ddarllen papur newydd ym mherchnogaeth cwmni arall. Fedrwyd chwi ddim dychmygu colofnydd yn y *Times* yn annog ei ddarllenwyr i droi at y *Guardian* rhywsut! Ond rydw i am ichi ddarllen (a'i brynu hefyd os mynnwch!) papur bro Dyffryn Nantlle y mis nesaf – a'r mis wedyn hefyd o bosibl.

Mae hanes diddorol i'w gofnodi yn y papur hwnnw, a chysylltiadau agos iawn â'r fro hon i'r stori. Mae'n ymwneud â merch o Ddinorwig a aned yn America ac a fu farw yn Llundain – ond daeth ei charreg fedd dybiedig i'r golwg ym Mhen-y-groes. Oes, mae siawns am stori dditectif go iawn yma,

ond fiw i mi ddweud gormod wrthych, neu fe'm cyhuddir o lèn ladrad.

Felly prynwch a darllenwch *Lleu*.

Y Mudo o Batagonia i Ganada
Derbyniais becyn o wybodaeth am hanes y mudo o Batagonia i Ganada ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, a hynny gan hen gyfaill ysgol i mi, ac un o gyn-sêr tîm pêl-droed Llanberis. Addawodd John R. Roberts (John Rich.) sydd bellach yn brifathro ysgol uwchradd yn nhalaith Saskatchewan, anfon gwybodaeth am y fintai o Gymry a ymsefydlodd yng Nghanada, a chyrhaeddodd y pecyn yn llawn erthyglau, nodiadau a lluniau o fewn y pythefnos diwethaf. Gobeithiaf geisio crynhoi rhywfaint ar y toreth gwybodaeth a'i gyflwyno i ddarllenwyr yr 'Eco' maes o law.

Bydd mwy o bytiau am hanes bro'r 'Eco' y mis nesaf, gyda mwy o wybodaeth, gobeithio, am dyddynnod ardal y Bigil. Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515)

Cefnogwch ein Hysbysebwy

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Y Ganolfan, Waunfawr ar 5 Mawrth 2001. Roedd y Cyngorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol.

Cafwyd esboniad gan Carwyn Davies o'r Cynllun Cwlwm Gwledig newydd. (Nid oedd yr Arolwg Bro wedi cael ei argraffu hyd yma!) Gellir cysylltu â fo yn Y Ganolfan Gwybodaeth ym Mhen-y-groes, ffôn (01286) 882968.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddarparu pont droed a chamfa er mwyn agor y llwybr cyhoeddus rhwng Pencefn a Bryn Beddau. Hefyd mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i godi arwydd rhybuddio am blant yn chwarae wrth y fan chwarae newydd.

Yn ogystal bydd offer technegol yn cael ei osod er mwyn ceisio amcangyfrif a yw traffig yn gorrru trwy'r pentref.

Cytunwyd ar rodd o £150 ar gyfer prynu dodrefn pwrpasol ar gyfer cornel yr Ysgol Sul yn y Capel.

Oherwydd y tipio slei a'r sbwriel cyffredinol ar ochr y lonydd bydd gofyn i Gyngor Gwynedd scrhau glendid a harddwch.

CYDYMDEIMLAD. Yng nghanol mis Mawrth bu farw Ronald Moore, Eryl Cottage yn sydyn yn ei gartref yn 76 oed. Cydymdeimlwn â'i weddw, Doreen, a'r teulu i gyd.

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer fis Mawrth oedd: £40: (88) Humphrey Jones, Glyn; £25 (95) Selwyn Hughes, 7 Erw Wen; £15: (56) Alan Griffiths, 6 Tai Glangwna; £5: (76) Dr Helen Jones, Maes y Coed.

WYAU PASG. Diolch i haelioni cyfrannwyr y Tynfa Misol bydd y Pwyllgor Cae Chwarae yn dosbarthu Wyau Pasg i'r 43 o blant (ie, 43!) rhwng 2 fis ac 11 oed ar fore Sul y Pasg am 11.00. Plant a rhieni i gwrdd ym maes

parcio Bryngwna.

CAPEL CAEATHRO. Cynhaliwyd cyfarfod o aelodau'r Capel ar ddydd Sul, 23 Chwefror. Roedd presenoldeb da ac etholwyd swyddogion newydd i'r Capel:

Ysgrifennydd: Clive James;
Is-ysgrifennydd: Marian Huws;
Trysorydd: Huw Ceiriog;
Is-drysorydd: Eryl Jones;
Cyhoeddiadau: Ifor Hughes.

Talwyd teyrnged i'r cyn Ysgrifennydd Ifor Hughes a'r cyn Drysorydd Owie Williams am eu llafur mawr dros y blynyddoedd. Yn ogystal penderfynwyd dewis y canlynol er mwyn hwyluso gwaith yr Eglwys:

Cyd-lynydd gwaith atgyweirio'r addeilad – Dafydd Iwan; Cyd-lynydd yr Ysgol Sul – Vera Roberts; Arolygwr y Fynwent – Deiniol Hughes; Gofalwyr Casgliadau – Y Treuliau: Deiniol Huws a'r Weinidogaeth: Marian Huws a Clive James; Organydd – Ifor Hughes.

Bydd Pwyllgor Gweithredol yn rhannu'r gwaith o redeg yr Eglwys o fis i fis. Cynhelir cyfarfodydd am 7.00 ar y trydydd nos Lun ym mhob mis. Mae angen mwy o enwau ar gyfer canu'r organ yn ystod gwasanaethau yn y Capel. Y ddau brif dasg sy'n wynebu'r eglwys yng Nghaeathro yw llenwi'r pulpud ar gyfer gwasanaethau pob pythefnos a moderneiddio ac addasu'r adeilad o fewn yr arian sydd ar gael.

LLONGYFARCHIADAU. Yr un diwrnod yn ddiweddar roedd Cathy Hughes, Cefn Gwern yn 50 oed a Bethan Iwan, Carrog yn 40 oed. Sgersli biliff!

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.00 pob Sul ac eithro gwyliau ysgol. Roedd yn braf gweld aelodau newydd ym mis Mawrth – croeso i bawb. Bydd Gwasanaeth Teulu yn y Capel am 10.00 ar fore Sul y Pasg, 15 Ebrill. Unwaith eto, croeso i bawb.

DRAENOG



Ddarau neb ddiolch i mi. I fi a'r tylwyth a bod yn onast. Chwartar canrif o gyfrannu: a mwy nag un cyfraniad amball i fis, a dim gair o ddiolch. Ond dyna fo, rhyw gryduriad croendena fu trigolion bro'r 'Eco' rioed. Digon parod i gal hwyl diniwad am droeon trwstan un neu ddau yma ac acw'n y fro – a thu hwnt, a dyna'r cwbl.

Ond roedd taid yn giamstar o ddraenog. Fo ddechreuodd gyfrannu i rifynna' cynnar yr 'Eco'. Ew! Roedd o'n bigog hefyd. Pigo cydwybod.

Darllenwch rhai o'i bytia' cynhara'.

Bellach, ma'n rhaid i mi gyfadda ma' rhyw betha wedi colli eu miniogrwydd ydi fy mhiga i. Ond wedi deud hynny, rhyw stwff digon di-ddim fydda i'n ga'l hefyd. Ella nad oes 'na ddim byd yn digwydd yn y fro sy'n haeddu sylw pigog, ond fedra'i ddim coelio hynny 'chwaith, rhywsut. Dim problem iaith. Dim tor-cyfraith. Dim gwerthu nwydda' ar y farchnad ddu. Dim problem drygs. Dim tlodi cymdeithasol. A dim cynllwynio gwleidyddol hyd yn oed, a hitha' o fewn dim i lecciwn!

Ydi, ma' bywyd yn hyncidori ym mro'r 'Eco' – a does dim pwrpas i mi feddwl am hogi fy mhiga'.

'Falla bod lle i ddiolch am hynny!

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SWYDDOGION NEWYDD. O fis Ebrill ymlaen bydd Mrs Gwawr Morris, Y Griolen, Erw Nant yn ymgymryd â'r gwaith o fod yn brif ddosbarthwr yr Eco yn y pentref. Mrs Verna Jones, Meillionen fydd yn cymryd drosodd waith Mr Glyn Owen, Tros yr Afon o fod yn gyfrifol am ddosbarthu'r Eco yn ardal Pen Llyn. Bydd y swydd o Drefnydd Plygu yn cael ei llanw gan Mr Myrddin Jones, Na N'og, Erw Nant. Ef fydd yn gyfrifol am noson plygu rhifyn Mehefin o'r Eco yn flynyddol. Rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd y tri i ymgymryd â'r dylestwyddau hyn ac ar yr un pryd yn diolch i Mr Glyn Owen, Tros yr Afon am ei waith dros flynyddoedd lawer ac i Mrs Dilys Morris, y prif ddosbarthwr a threfnydd plygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

ARDDANGOSFA. Nos Fawrth, 15 Mawrth cynhaliwyd agoriad swyddogol arddangosfa 'Presenoldeb' y cerflunydd John Meirion Morris, Y Griolen, yn Oriel Bangor gan y dramodydd Aled Jones Williams. Eisoes mae ei gerfluniau mewn casgliadau priefat a chyhoeddus ym Mhrydain. Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys nifer helaeth o gerfluniau a arddangoswyd yn Oriel y Tabernacl, Machynlleth y llynedd. Derbyniodd John Meirion Morris y llythrennau RCA, aelodaeth o'r Academi Frenhinol

Gymreig yn ddiweddar. Bydd yr arddangosfa hon i'w gweld yn Oriel Bangor hyd Fai 12.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau Ebrill:

- 1: Mr W. Arfon Roberts, Pwllheli am 5.00;
- 8: (Sul y Palmwydd) Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon am 5.30;
- 15: (Sul y Pasg) Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 2.00;
- 22: Parch Oswyn Rees, Bangor am 10.00;
- 29: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 10.00.

CYMDEITHAS Y CAPEL. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas am 2001 yn y Ffestri nos lau, Ebrill 5 am 7 o'r gloch. Y wraig wadd fydd Annette Bryn Parri, Deiniolen. Croeso cynnes i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mwynhaodd aelodau'r gangen eu cinio Gŵyl Ddewi blynyddol ym Mwyty Tŷ Mawr, Llanddeiniolen. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Elinor Williams, gan Mrs Valmai Owen. Mrs Nerys Roberts enillodd gwobr arbennig y Sefydliad, sef Wy Pasg. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs Pat Jones a Mrs Carol Houston am drefniadau'r noson gan Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ebrill 23.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr y mis hwn oedd: 1. Elen Lewis, Penpwllcoch; 2. Elizabeth Jones, 17 Bryntirion; 3. Phyllis Elis, Rhosfair.

Gobeithir cynnal noswaith 'Miri Mai' ar Fai 10 yn y Neuadd Gymuned. Trefnir gemau, stondinau, paned a raffl. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd y plant yn cymryd rhan mewn dwy Gymanfa eto eleni. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Ebenezer, Caernarfon bawn Sul, Ebrill 1 am 2.00. Trefnir bws i gludo'r plant yno ac unrhyw un sy'n dymuno dod i'r Gymanfa. Bydd y bws yn cychwyn am 1.30.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm-y-glo yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo bawn Sul, Ebrill 8 am 2.00 y pwn. Gwneir casgliad tuag at Katalau Singano o Kenya. Bydd y bws yn cychwyn o Stesion Wyddfa, Llanberis am 1.15, yna o Ddeiniolen, Penisarwaun a Chwm-y-glo. Erfynnir am gefnogaeth i'r bws. Pris i oedolion yw £1. Bydd yr emynau i gyd i'w cael yn y llyfr emynau newydd 'Caneuon Ffydd'. Arweinydd y Gân fydd Mair Huws, Llanrug a'r organyddes fydd Cassie Thomas, Cwm-y-glo.

LLONGYFARCHIADAU i Olwen a Kevin, Cartrefle, Waunfawr ar enedigaeth Cai Meredydd, brawd bach i Tomos. Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid, sef Arwel a Carys ac i ewythr Dafydd Du. Llongyfarchiadau i Nain Caernarfon, sef Mrs Nancy Morgan. Pob bendith i chwi fel teulu.

EGLWYS SANTES HELEN. Cynhelir Noson Caws a Gwin yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Ebrill 6. Bydd nifer o grefftwyr lleol yn arddangos ac yn gwerthu eu gwaith. Croeso cynnes i grefftwyr, pentrefwyr a thrigolion y fro.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i Mr Ken Mowll wedi ei driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau hefyd i bawb arall nad ydynt wedi bod yn dda. Brysiwch wella i gyd.

**Cofiwch yr
apêl a wnaed
yn ddiweddar
am Ohebydd
newydd
Penisarwaun**

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfôn am ddim i holl ardal Bro'r Eco**



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

STEPHEN JONES

— Trefnwyr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 872491
(07770) 265976

**Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol**

Wavell Roberts

**CIGYDD
London House
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CÔR MEIBION DYFFFRYN PERIS. Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth sydyn Idwal Williams o Gwm-y-glo. Bu'n aelod ffyddlon iawn o'r Côr am flynyddoedd lawer. Hefyd fe fu yn aelod o Gôr Meibion Caernarfon ers ei sefydlu. Canu oedd un o brif ddiddordebau Idwal ac fe fydd colled fawr ar ei ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mair, Gwyn, Blodwen, Meirion ac Eirian ar golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn.

Bu ei angladd ddydd lau, Chwefror 22 yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis dan ofal y Parch Phillip Hughes a Mr Derek Jones. Dymuniad Mair oedd i'r Côr ganu yn ei angladd. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym Mynwent Nant Peris y dydd Gwener canlynol. Diolch am gael ei adnabod.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Côr nos Lun, 26 Chwefror. Ail-etholwyd y mwyaf o aelodau'r pwyllgor a chroesawyd dau aelod newydd gan ddiolch i'r rhai a fu ar y pwyllgor ers tipyn o flynyddoedd. Diolch yn arbennig i Emerson Hughes am ei waith trylwyr fel Trysorydd y Côr, hefyd i Aneurin Jones am gymryd y Gadair am y drydedd blwyddyn. Diolch i bawb.

Dydd Sadwrn, 24 Chwefror bu'r côr yn Stiwdio Sain, Llandwrog yn recordio rhan o'u CD/tâp cyntaf. Gobeithir cael cwblhau'r cyfan nos Lun, Ebrill 2.

Dydd lau, Dydd Gŵyl Dewi bu rhai o aelodau'r côr yn diddori aelodau o Glwb yr Henoed mewn cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.

Oherwydd agosrwydd y Clwy Traed a Genau gohiriwyd y cyngerdd Gŵyl Ddewi yng nghapel Ebeneser, Deiniolen. Hyderwn y bydd dyddiad arall i hwn yn fuan.

Llawenydd o'r mwyaf oedd deall fod Tecwyn wedi cael dod adre o'r ysbyty ar ôl bron i dri mis o amser digon annifyr. Dymunwn y gorau iddo am wellhad buan ac edrychwn ymlaen am ei weld yn y côr unwaith eto.

Mae safon y tenoriaid wedi mynd i lawr y misoedd diwetha' ma' Tec! Brysia' 'nôl!

DIOLCH. Dymuna Huw R. Jones ddiolch am bob dymuniad da, yr

holl gardiau ac anrhegion a gafodd ar ei ben-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn.

YSGOL DOLBADARN

FFARWELIO. Ar ddiwedd y tymor bydd Mr Owain Gwilym yn ein gadael gan ei fod wedi ei benodi i swydd yn Ysgol y Graig, Llangefni. Pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Iona Ceiriog sydd yn cychwyn ar ei swydd fel athrawes newydd yn Ysgol Dolbadarn ar ôl y Pasg. Rwy'n sicr y bydd hi'n hapus iawn yn ein plith. Ar hyn o bryd mae Mrs Ceiriog yn athrawes yn Ysgol Bontnewydd. Cofiwch roi croeso cynnes iddi, blant.

DYMUNIADAU GORAU i Mrs Wendy Jones ar ei phenodiad yn ddynes lolipop newydd.

E-BOSTIO. Mae disgyblion Blwyddyn 5/6 wedi cychwyn cysylltu hefo plant o'r un oedran mewn ysgol yn Kazan, Rwsia. Mae'r plant yn e-bostio ei gilydd yn rheolaidd ac wrth eu bodd.

CREISION A TESCO. Mae'r ysgol yn casglu tocynnau *Books For Schools* sydd i'w cael ar fagiad creision a rhai papurau newydd. Cofiwch eu torri allan cyn dod a nhw i'r ysgol!! Peidiwch hefyd ag anghofio gofyn am docynnau *Computers For Schools* os ydych yn siopa yn Tesco.

CAE O ADAR DUON.

Ar Fawrth 5 fe ddaeth Cwmni y Frân Wen i Ysgol Dolbadarn i berfformio drama 'Cae o Adar Duon'.

Yn wreiddiol mae'r ddrama yn Saesneg, ond wedi cael ei chyfieithu i Gymraeg gan Meinir Lynch. Cafodd y ddrama ei hysgrifennu gan Kevin Dyer. Yn actio yn y ddrama oedd Ioan Evans, Dewi Rhys a Siwan Llynor. Er mai dim ond 40 munud oedd hyd y ddrama roedd hyn yn llawn digon. Roedd y ddrama wedi ei lleoli yng Nghosovo ddwy flynedd yn ôl. Stori am ferch fach yn cael ei gorfodi allan o'r wlad gan y Serbiaid oedd y ddrama ac yn dod ar draws Serb ar y ffordd i Albania. Roedd y ddrama yn dangos pethau oedd yn digwydd yng Nghosovo yn ystod y rhyfel efo Serbia. Roedd hyn yn rhoi braw i mi mewn rhai golygfeydd. Fe wnes i fwynhau y ddrama yn fawr iawn ac yn gobeithio cael gweld

un o ddramâu Cwmni y Frân Wen eto yn y dyfodol.

Iwan Williams (Bl.5)

TRWYNAU COCH. Cafodd y plant dipyn o hwyl ar ddiwrnod Comic Relief yn dod i'r ysgol yn gwisgo eu pyjamas a thalu 50 ceiniog yr un am y frant!! Roedd yn rhaid i'r athrawon wisgo eu dillad nos hefyd. Roedd teisennau a siocled poeth ar werth yn ystod y bore. Hefyd bu plant hynaf yr ysgol yn gyfrifol am drefnu gemau o bob math i gadw pawb yn brysur a'u perswadio i wario llawer o arian! Cafodd pawb lot o sbort a sbri gan godi bron i £250 tuag at yr achos da yma. Diolch i bawb am eu rhoddion caredig.

DIOLCH. Dymuna Mrs O Roberts, 3 Rhes y Faenol ddiolch yn ddiffuant i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn cael llawdriniaeth ym Manceinion a Llandudno ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

UNDEB Y MAMAU. Drwy garedigrwydd ein Rheithor a'i wraig, Sandra, yn y Rheithordy y cynhaliwyd ein cyfarfod fis Mawrth ar bawn Mawrth 6. Mrs Betty Humphreys, yr Aelod Cofrestru gymerodd y gwasanaeth agoriadol.

Croesawyd Mrs Patizia Paul o Gartref Nyrsio Penisarwaun atom a chafwyd pnawn hynod o ddiddorol yn ei chwmmi. Sgwrs a dadl ar y pwnc 'Gair Duw' gafwyd ganddi ac yr oedd wedi trefnu i bob aelod gymeryd rhan yn y drafodaeth, gan ei bod wedi ysgrifennu adnodau pwrpasol o'r Beibl i'r achlysur. Mwynhawyd ei chwmmi a'i sgwrs yn fawr iawn.

Darllenwyd cofnodion y mis diwethaf a'u derbyn yn gywir. Yn

dilyn cafwyd ychydig o faterion busnes oedd i'w trafod.

Miss Glenys Parry a Mrs Audrey Evans oedd yn gofalu am y lluniaeth ysgafn a diolchwyd iddynt hwy a Mrs Paul gan Mrs Nan Owen. Enillydd y raffl oedd Miss Glenys Parry. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

DIOLCH. Dymuna Louie Pritchard, Berth, a'i brawd, Myrddyn, ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Thomas. Diolch am y gofal a gafodd Thomas ym Mhlas Pengwaith tra bu yno. Diolch hefyd i John am y gwasanaeth arbennig, ac i Gwynfor Jones (E.W. Pritchard) am holl drefniadau'r angladd.

DYDD GWEDDI. Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chworiydd yn Festri Capel Coch nos Wener, Mawrth 2. Yr oedd aelodau o Eglwys Sant Padarn, Jerusalem, Nant Padarn a Chapel Coch yn cymryd rhan. Diolch iddynt ac i bawb a ddaeth i'r cyfarfod.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd Swper Gŵyl Ddewi y Gymdeithas yn Y Bistro nos Fawrth, Mawrth 6 a chafwyd croeso a gwledd arbennig. Y gŵr gwadd oedd ----- a dyna lle mae'n anodd! Yr oedd y sawl a wahoddwyd wedi meddwl mai'r noson ganlynol yr oedd y swper, a chewch wybod pwy oedd mewn penillion ar dudalen arall o'r rhifyn hwn. Diolch i Mr John Huw Hughes am fod mor barod i lenwi'r bwch. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo am 'Gelwyddau Golau'. Diolchwyd iddo gan Mr Cledwyn Parry.



Miss Williams yn gwerthu teisennau yn y caffï.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrellad

AA
MOT
Selected

RAC
Selected

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

Cynhadledd Di Fwg



Ar 7 Mawrth cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau wedi eu targedu at ddisgyblion Bl. 7 yr ysgol.

Y mae diwrnod o'r fath yn bwysig iawn gyda arwyddion mewn rhai mannau bod plant ieuanc iawn yn ysmygu. Trefnwyd y diwrnod gan grŵp o ddisgyblion Bl.10, gyda chefnogaeth grŵp GNVQ o'r chweched dosbarth. Y prif westai oedd Mrs Linda Hughes o'r Uned Hybu Iechyd a leolir yn Llanfairfechan.

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus gyda nôd pendant. Diolch i'r

canlynol am eu hyder a menter yn trefnu'r diwrnod: David Crane, David Andrew Roberts, Emma Taylor (Deiniolen), Luke Roberts, Kevin Foulkes, Philip Foulkes, Steven Williams, Rachel Owen (Cwm-y-glo), Wayne Bennett (Bethel), Trevor Evans (Llanrug).

Rhodddwyd gwobr o docyn anrheg o £5 i'r disgybl mwyaf llwyddiannus ym mhob dosbarth ym Ml.7. Yr enillwyr oedd: Daniel Roberts (7S); Natalie Griffiths (7E); Mathew Humphreys (7I); Jessica Jones (7O); Donna Williams (7N).

Penwythnos Glanllyn



Ar 9 Chwefror fe aeth criw o Flwyddyn 7 Ysgol Brynrefail am benwythnos i Lanllyn. Cychwynnodd y bws am 5 o'r gloch o flaen yr ysgol a phawb yn llawn hwyl.

Fe gyrhaeddodd ni mewn pryd i gael bwyd ac ar ôl hyn rhanwyd pawb i'w hystafelloedd. Cawsom ddewis o bedwar gweithgaredd sef nofio, hoci, gemau yn y gampfa neu ymweld â'r siop, er mwyn ein blino yn iawn cyn mynd i'r gwely.

Dechreuodd bore dydd Sadwrn yn fuan iawn, yn gynnar

tu hwnt i rai oedd yn cael cawod am 6.30!

Ar ôl brecwast dechreuom ar y gweithgareddau go iawn. Bwm yn canwio yn y glaw a gwlychu fy nhraed, ond roedd yn sbort! Cawsom gyfle i fynd ar y salmo, sef cwch mawr yn mynd a ni am dro ar Lyn Tegid, adeiladu rafft allan o gasgenni plastig a phlanciau pren, cyfeirianu (Helfa Drysor), y wal ddringo, nofio, rhai yn anffodus iawn wrth gael y *rash* o'r pwll, Bowlio 10 a llawer mwy.

Erbyn y nos roedd pawb wedi blino ond nid oedd y noson drosodd. Ar ôl ychydig o seibiant fe ddaethom yn ôl at ein gilydd i chwarae gemau potes a dawnsio gwerin ond yn anffodus roedd y chwaraewr tapiau ddim yn gweithio! (rhai yn hapus iawn!) Wedyn fe ddechreuodd y Disgo a phawb yn mwynhau eu hunain.

Fe gafodd pawb lot o hwyl wrth wneud ffrindiau newydd, rhai yn agosach i'w gilydd nac eraill, a rhai yn cael cariad!

Daethom yn ôl yn ddiogel dydd Sul a phawb wedi blino'n lân. Mi fûm i yn cysgu drwy'r pnawn a'r nos. Cafodd pawb benwythnos bendigedig ond faswn i ddim yn hoffi bod yn mam yn gorfod golchi'r dillad.

Sioned Alaw Williams (Bl.7)
Jennifer Hanmer (Bl.7)

Ymweld â Bedd Bardd

Mae'n anodd ystyried beth yw effaith rhyfel nes ymweld ag ardal fel Ypres yng Ngwlad Belg. Dyna'n union a wnaeth 6 o'r chweched dosbarth o dan oruchwyliaeth Mrs Catrin Evans, yng nghanol criw swnllyd iawn o Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Prif bwrpas y daith oedd ymweld â bedd y Prifardd Hedd Wyn er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Credwch chi fi, mae hi'n amhosib credu faint o filwyr ddisgynnodd yn y rhyfel nes gweld rhes ar ôl rhes o'r cerrig gwynion. Un o'r profiadau mwyaf dirdynol oedd sefyll ym Mhorth Mennin i wrando ar y *'last post'*. Bydd seiniau'r cyrn yn tarfu ar y tawelwch yn brofiad fydd yn aros yn y cof am hir.

Cyd-dynnodd y ddau griw yn syth ac fe grëwyd cyfeillgarwch a fydd yn siŵr o barhau. Felly hoffwn ar ran yr holl griw ddiolch yn fawr iawn i'r trefnyddion am roi'r cyfle i ni ymweld â gwlad mor brydferth a hefyd y cyfle i ni fwynhau ein hunain ar y daith bleserus hon.

Erin Eifion (Bl.12)

Trip Sgïo'r Urdd i Landudno

Ar noson oer, aeafol ym mis Chwefror, teithiodd criw o glwb yr Urdd i lethr sgïo Llandudno am sesiwn sgïo. Sôn am hwyl! Roedd ambell arbenigwr ar y daith fel Dylan (Bl.12) ac Alex (Bl.7) ond amaturiaid oedd y rhan fwyaf.

Cafwyd hyfforddiant gan yr 'athrawon sgïo' a chyn pen dim roedd y bechgyn yn gwibio'n igam-ogam i lawr y llethr. Y genethod? Stori arall oedd honno! Ond rhaid cydnabod, erbyn diwedd y sesiwn roedd sawl merch yn gallu sefyll o leiaf, a rhai hyd yn oed yn gallu rheoli i ba gyfeiriad yr oeddent yn mynd! (heb enwi neb wrth gwrs - ynte, Blwyddyn 10!!)

Wedi pryd go flasus yn y Macdonalds lleol dychwelodd pawb yn flinedig a llawn swigod, yn trafod ein hymweliad nesaf â'r llethr. Pwy fydd yr *'Eddie the Eagle'* nesaf tybed?

Enillwyr y Clwb Cant

Ionawr 2001

1. (59) Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen; 2. (51) Mr Euron Hughes, d/o Ysgol Brynrefail; 3. (26) Mrs Sioned Jnes, Isfryn, Cwm-y-glo.

Chwefror 2001

1. (40) Miss Jackie Sellars, 2 Stad Tŷ Du, Llanberis; 2. (56) Mrs Mair Parry, 21 Bryn Moelyn, Llanrug; 3. (01) Mr Berwyn Hughes, 34 Stad Glanffynnon, Llanrug.

Mawrth 2001

1. (74) Mrs Jennifer Hughes, Aljen, Penisarwaun; 2. (61) Miss Priscilla Ann Williams, Cilgwyn, Bethel; 3. (06) Mr a Mrs R. Evans, Gwynfryn, Llanrug.

Mae angen mwy o aelodau ar y Gymdeithas. A oes yna gyn ddisgyblion awydd ymaelodi? Os hoffech ymuno â'r Clwb, m llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol. Cofiwch bod croesi i unrhyw un ymuno.

**PEIDIWCH A GORI
AR STORI
— ANFONWCH HI I'R ECO**

Gala Nofio'r Urdd

Fis Ionawr, yn ôl yr arfer, cynhaliwyd Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd. Eleni, fe'i cynhaliwyd ym Mangor a daeth llwyddiant i ran tîm yr ysgol unwaith eto.

Shaun Humphreys yn 2il; Nicki Hill yn 1af; Tîm Cyfnewid y Bechgyn yn 3ydd.

Daliwch ati i gyd a llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd yr ysgol.

Cofnodi Cyrhaeddiad

Eleni eto cafwyd prynhawn difyr iawn ar y pedwerydd ar ddeg o Fawrth pan ddaeth Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Rolant Wynne, draw i'r ysgol i gyflwyno Tystysgrifau

Cofnodi Cyrhaeddiad i ddisgyblion Blwyddyn 11.

Wedi'r araith a'r cyflwyno cafodd pawb gyfle i ymlacio a mwynhau lluniaeth ysgafn a sgwrsio gyda hwn a'r llall.



Mr Eifion Jones yn cyflwyno tystysgrif i Gareth Sinclair.



Mr Rolant Wynne yn mwynhau ei baned ar ôl yr holl siarad!

Arddangosfa i Ddathlu Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail yn Oriel Llyfrgell Caernarfon 21 Mawrth - 19 Ebrill

Arddangosfa o waith disgyblion Ysgol Brynrefail gyda'r artist preswyl Nerys Francis Owen. Mae dau furlun wedi eu creu sy'n cynnwys gwaith disgyblion ar draws yr ysgol. Mae disgyblion y chweched wedi creu darn o waith unigol hefyd.

Yn wreiddiol bwriadwyd cynnal rhagolwg preifat gan wahodd yr holl ddisgyblion fu'n ymwneud â'r gwaith a'u rhieni. Oherwydd y Clwy Traed a'r Genau gohiriwyd y noson. Ewch i weld y gwaith yn unigol yn y llyfrgell.

Mae Nerys Francis Owen wedi creu darn o waith unigol sy'n ymwneud ag effaith y clwy ar gefn gwlad. Enw'r darn yw 'Llanw'n troi'.

Mae'r gwaith i gyd wedi ei wneud yn defnyddio'r broses o lingerfio, sef crafu delweddau ar fetel a defnyddio asid i dorri i mewn i'r metel. Mae'r gwaith wedyn yn gael ei argraffu gan ddefnyddio gwasg. Argraffwyd y gwaith yn defnyddio lliwiau llachar sydd wedi apelio at y disgyblion. Mae'r gweithiau terfynol fel brithwaith ac yn ymddangos fel casgliad lliwgar o stampiau o bell.

Mae yna elfen o hiwmor yn y cyweithiau, a dipyn o dynnu coes staff. Seiliwyd llawer o'r delweddau ar y stondinau blodau a grëwyd yn wreiddiol yn y Bazar i godi arian i sefydlu'r ysgol wreiddiol ym Mrynrefail.

Noddwyd y prosiect gan grant o Gronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru.



Nerys Owen a'r disgyblion yn paratoi yr arddangosfa.

Comic Relief

Mae'n siŵr eich bod chi fel finnau wedi gweld rhywfaint o raglenni *Comic Relief*, nos Wener, Mawrth 16 ac wedi chwerthin ar y digri a chydymdeimlo a chrio wrth weld rhai o'r hanesion torcalonnus a ddangoswyd arni. Gyda balchder felly gallwn gyhoeddi fod disgyblion a staff Ysgol Brynrefail wedi codi oddeutu £1,200 at yr achos teilwng hwn.

Y traddodiad yw codi arian at Blant Mewn Angen ond gan fod diwrnod o hyfforddiant staff eleni ar y diwrnod hwnnw, penderfynwyd canolbwyntio'r ymdrechion i gefnogi *Comic Relief*. A gwnaed ymdrech lew.

Daeth y disgyblion i'r ysgol heb wisgo'u gwisg ysgol a thalu 50c am y frain! Gwelwyd criw o ferched Bl.8 yn eu gwisgoedd nos gydol y dydd ac, i goroni'r cwbl, bodlonodd y criw dewr i


adael i'r disgyblion eraill eu pledu â sbwnjis gwlyb! Eilliodd nifer o flwyddyn 11 eu gwalltiau'n fyr a chael eu noddi am wneud, ac eillwyd gwallt un o'r chweched yn gyhoeddus ar lwyfan y neuadd amser egwyl.

Amser cinio caed ymddangosiad unigryw o 'Westlife' a'r disgyblion wrth eu bodd yn gweld bechgyn y chweched ac ambell athro'n perfformio i'r gerddoriaeth. Daeth ambell un arall i'r ysgol mewn gwisgoedd digon diddorol, gan gynnwys dau o fechgyn Bl.8 wedi'u gwisgo fel petaent yn ddwy hen wraig ar eu ffordd i'r seiat!

Do, fe godwyd gwên ond yn bwysicach fe godwyd arian sylweddol at achos da dros ben. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gyfrannodd at wneud y diwrnod yn llwyddiant ysgubol.



Bechgyn wedi eillio eu gwalltiau. Dewr iawn!



Amy, John ac Emma (Bl.8) wedi gwisgo yn ddeniadol iawn!



Maeddu dwylo er lles yr achos.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR 5 Mawrth 2001

Rhoddodd ein Cadeirydd, y Cyngorydd Edgar Wyn Owen, groeso i Carwyn Davies i drafod ei waith fel Swyddog Adfywio Cyngor Gwynedd Gwyrfa/Nantlle o dan gynllun Cwlwm Gwledig. Carwyn fydd ein pwynt cyswllt cyntaf i gynorthwyo a chefnogi prosiectau cymunedol sydd ag elfen economaidd. Byddai hefyd yn cynnig gymorth i brosiectau o'r sector breifat a phrosiectau eraill trwy agor cysylltiadau priodol er mwyn iddynt ddatblygu ar eu liwt eu hunain. Rydym yn gobeithio y bydd canlyniadau Arolwg Waunfawr a Chaeathro (gafodd ei drefnu o dan Adfywio Bro) yn cael ei ddosbarthu yn y dyfodol agos.

Llongyfarchiadau i Mr Elfyn Gruffydd, 6 Stad Tŷ Hen, Waunfawr a gafodd ei gyfethol yn aelod o'r Cyngor.

Bu'r Cyngorydd Gwilym O. Williams yn cyfarfod yn ddiweddar ag asiant Stad y Goron yng Nghymru ger Chwael Cefn Du. Yn anffodus mae cryn dipyn o sbwriel wedi cael ei adael yno ac mae trefniadau mewn llaw i gael gwared ohono. Pe bai problemau pellach yn codi efallai y bydd rhaid ystyried creu rhwystrad i'r tir.

Mae anhwylostod yn codi ar adegau wrth i geir barcio ger yr ysgol yn Waunfawr. Gofynnir i bawb fod yn ymwybodol ac yn ofalus, yn enwedig pan fydd y plant yn cyrraedd ac ymadael o'r adeilad.

Mae'r Cyngor yn falch o gael cadarnhad oddi wrth Uwch Swyddog Cludiant Cyhoeddus Cyngor Gwynedd y bydd gwasanaeth bws 95 i Waunfawr o Gaernarfon yn mynd cyn belled â'r safle bws (yr hen bost) yr ochr draw i'r pentref.

Bydd unrhyw aelod o'r Cyngor yn falch o dderbyn cais gan yr henoed os ydynt eisieu cael gosod cadwyn ddiogelwch ar eu drws.

Ar ôl ystyried ambell gais, cytunwyd i roi cyfraniadau ariannol i'r mudiadau a chymdeithasau canlynol: Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol - Canolfan Cynnal Gofalwyr i gael £50. Urdd Gobaith Cymru - Eisteddfod Caerdydd a'r Fro i gael £50. Rygarug - £20. Canolfannau Cyngori Gwynedd - £75. Cyfraniad tuag at gostau fandaleiddio diweddar yn Ysgol Gynradd Waunfawr - £200. Eco'r Wyddfa - £100. Cyfraniad tuag at gadeiriau a byrddau

newydd i Ysgol Sul Caeathro - £150.

Mae trefniadau mewn llaw i drefnu i dorri glaswellt a chadw'r llwybrau cyhoeddus yn glir ar gyfer y misoedd nesaf.

Hoffai'r Cyngor ddiolch i Mr Dewi L. Jones am ei wasanaeth gwerthfawr tra'n Glerec i'r Cyngor Cymuned am y tair blynedd diwethaf. Dymunwn

yn dda iddo yn natblygiad ei yrfa. Rydym yn falch o groesawu Siân E. Thomas fel ein Clerc newydd. Cysylltwch â hi drwy ysgrifennu i Tŷ Ysgoldy, Waunfawr LL55 4YS neu ffonio (01286) 650327.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod y tro nesaf yn Y Ganolfan, Waunfawr ar ddydd Mwrth 27 Ebrill am 7 o'r gloch.

Pwy na alwodd?

Er bod y Bistro'n barod
Aeth petha' braidd yn flêr
Yng nghinio y Gymdeithas
O Gapel Coch Llanbêr.

'Be wnawn ni,' medd John Pritchard
'Gwell ffonio' i dŷ y gŵr?
Os na chawl afael arno
Fe fyddwn mewn cryn stŵr.'

Bu'r teitl 'Pwy sy' yna?'
Yn denu pobol lu,
Ond pwy nad oedd o yna?
Yw'r cwestiwn ar bob tu.

Eisteddai'r gynulleidfa'n
Ddisgwylgar mewn cryn strach,
'Ble goblyn mae o deudwch,
Gwell ffonio i'r Tir Bach?'

O'r Bistro fe aeth galwad,
Ond mud y ffôn fan draw,
'Maent ar y ffordd,' medd rhywun
'Dont yma maes o law.'

Ond ofer fu y disgwyl
A hithau'n wyth o'r gloch,
Yn llwglyd am y startars
Aeth pobol Capel Coch.

Tua deg daeth *call* i'r Bistro
Ac meddai llais o'r bron
'Y swper aeth yn angof
Mae gen i ofn 'rhen John!'

Ac meddai John wrth Gareth
A'i dafod yn ei foch,
'Chei di ddim gwadd fyth eto
I swper Capel Coch.'

Ar silffoedd Siop y Pentan
Y dyddiaduron sydd
Ar werth, er mwyn cofnodi
Gofynion dydd i ddydd.

Ac felly, yr hen gyfaill,
Dos yno ar doriad gwawr
I arbed, fel digwyddodd,
Embarrasment... go fawr!

'Bistro Kid'

a fersiwn arall o'r un stori

Fe glywsocch sôn am Gareth,
Y Maelor, o'r Tir Bach,
Mae byth a hefyd ffrindiau
Yn cael ei hun mewn strach.

Bu'n hwyr i angladd unwaith,
I fedydd, priodas, do,
'Dyw amser ddim yn cyfri
Yn ei ddyddiadur o.

Roedd pobol dda Llanberis
(Mae'r stori'n wir i chi)
Yn disgwyl Gareth atynt
I ddathlu'n nawddsant ni.

I'r parti yn y Bistro
Ef gafwyd yn ŵr gwadd,
Ond troes y parti'n chwewr,
Roedd pobun am ei ladd!

Ein gwnidog ni, John Pritchard,
Heb wybod beth i'w wneud,
A John Huw Hughes, roedd yntau
Heb wybod beth i'w ddweud.

Ond Pritchard gafodd frenwêf
(Mae yn cael ambell un!)
'Mi ffoniaf rŵan ffrindia
I weld ble mae y dyn.'

Dim ateb a dim ateb,
Roedd Gareth Maelor nawr
Yn dathlu dydd ein nawddsant
Yn nhŷ ei ferch, sef Gwawr.

Ond cofiodd yn dra sydyn
A hithau'n ddeg o'r gloch
Mai yn y Bistro ddylai
Ef yfed y gwin coch!

Fe ffoniodd i'r tŷ bwyta
I ymddiheuro'n awr
I'r gwnidog am ei fod o
Wedi gwneud blyndar mawr.

'Rhy hwyr, rhy hwyr,' medd
Pritchard,
'Mae'r cyfan nawr ar ben,
Mi fyddi'n hwyr i'w angladd
Dy hunan mêt. Amen.'

Un oedd yno



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)
Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

**Royal Victoria Hotel
LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
**PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG**

**CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU**

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Ar ben arall y lein

Dyma'r tro cyntaf imi gofio'r arwyddion 'DIM PYSGOTA' yn ymddangos fel y frech goch o amgylch yr ardal, dewis yr aelodau yw hyn wrth gwrs i geisio cadw'r Clwy Traed a'r Genau o erwau'r fro, Mae'n wir for rhai mannau ble y buasai'n bosib gwlychu pluen heb ddod yn rhy agos at yr un anifail. Un man, wrth gwrs, yw rhannau o Lyn Padarn. Rydym yn gwyllo gyda diddordeb y sylwadau sy'n cael eu gwneud, fel un gŵr busnes o Lanberis sydd eisiau gwneud i ffwrdd ag amaethyddiaeth oddi fewn y Parc, er mwyn i'r lle gael ei gadw yn gyfangwbl er budd ymwelwyr. Onid oes eisiau gras hefo rhai?

Os bydd Trê Bach y Llyn yn dechrau rhedeg yr wythnos nesaf, yna wrth gwrs bydd rhaid ystyried rhoi cyfle i'n haelodau 'sgota rhyw ychydig: mae'n rhaid i ninnau hefyd gadw gŵr y banc yn hapus. Buasai'n dipyn o golled os byddai'r dyfroedd yn mynd allan o reolaeth lleol, pwy fuasai'n 'sgota wedyn tybed? Wedi cael gwared â'r ffermwyr ac wedyn y 'sgotwrs buasai'r ymwelwyr yn cael y lle i gyd i wneud fel y mynnon. A llenwi caffis Llanbêr i gyd.

Ar nodyn ysgafnach mae newyddion arbennig yn dod bron yn ddyddiol. Mae'r gwaith ar ein cynllun Amcan Un yn symud ymlaen yn dda, nid yn unig yn y fro yma ond bydd aml i lecyn drwy Wynedd yn elwa. Dyma'r ffordd ymlaen i gryfhau'r economi - cydweithio yw'r peth, nid lol fel y gŵr rwyf wedi cyfeirio ato uchod. Gobeithio y byddaf yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi ar goedd y mis nesaf. Rhaid rhoi diolch arbennig i Swyddogion Adran Gynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd am eu gwaith diflino ar y cynllun yma.

Yn ogystal ag Amcan Un mae llawer o ffynonellau eraill wedi agor cil eu drysau'n ddiweddar a

thrwy eu haelioni bydd gwaith yn dechrau cyn gynted a phosib ar y datblygiad cyffrous ar Lyn Cwellyn. Rhaid diolch am hyn i Barc Eryri ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ogystal ag Ymgyrch Afonydd Glân sydd yn rhoi cymorth i brynu taclau cynnal a chadw'r glannau.

Tra wedi cyfeirio yn barod at ymwelwyr, mae'r ddeorfa yn Crawia yn chael rhai digon rhyfedd weithiau. Yn barod cawsom rai yn 'sgota yn y tanciau hefo genwair ac yn ei gwadnu hi ar draws caeau Bryn Afon, ond cawsom afael arnynt. Mae un pluog, sef yr hen grëyr, neu fel y gelwir ef yng nghaernarfon 'Ned Lord' yn dod i edrych drwy'r rhwydwaith weiar ar y pysgod yn y tanciau, ond fedr yr hen greadur mo'u blasu. Un sydd wedi bod yn fwy llwyddiannus yw'r dyfrgi. Mi gafodd o foliaid o frithyll un noson. Yn ffodus i ni roedd yn noson o eira ac fe welwyd ei lwybr i mewn i'r tanciau. Cafodd yr hen foi siom y noson wedyn wrth ganfod ei ddrws i'r ddeorfa'n gaeedig.

Y mis diwethaf tynnais eich sylw at y sbwriel oedd ym Mhen Llyn. Rhaid diolch i staff Parc Padarn am lanhau'r lle. Fe godwyd 30 bag o wastraff oddi yno.

Bûm ar drip i Ganada yn ddiweddar, ynghyd ag un o swyddogion y Clwb Sgota. Dringodd ef i lawr i ryw fangre unig i gael lluniau o'r Afon Bow a Gwesty'r Banff Springs. Roedd eira ar y llawr a lle bron cystal â Phen Llyn i gael lluniau. Ni wnes i fentro i lawr lle mor serth ond fel yna y mae. Fel y gallwch ddychmygu mawr oedd y brolio ar y lluniau arbennig a fyddai'n dod o'r camera - a phob lwc iddo, roedd yn eu haeddu. Buan iawn y trodd y balchder yn siom wrth iddo ddarganfod ymhen rhyw ddwy awr nad oedd ffilm yn y camera. Ni wnaethom YRRU'n ôl i dynnu mwy.

Rhyw flwyddyn yn ôl, drwy nawdd cyllun Sportlot fe drefnwyd cyfres o ddyddiau hyfforddiant 'sgota. Roedd yn llwyddiant mawr gyda hyd at 52 yn cymryd rhan. Mae nawdd wedi ei dderbyn eto eleni a gobeithir trefnu dyddiau yn ystod gwyliau'r haf: ieuencid yn y prynhawn ac oedolion gyda'r nos. Bydd mwy o wybodaeth maes o law.

Yn ystod y pythefnos diwethaf cafwyd dwy noson hynod o lwyddiannus o weithgareddau'r Gymdeithas.

Noson Arwerthiant Celfi 'Sgota yng Nghwesty'r Dolbadarn - bargeinio brwd a chryn dipyn o elw i'r clwb.

Diolch i Aneurin a'i staff sydd bob amser mor barod â'i gymorth. Hefyd i'r ddau Parri, sef Dr Robin a Bert am drefnu'r noson, a Dafydd Owen yr arwerthwr. Sgwn i ble cafodd o brofiad o werthu fel hyn.

Hefyd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon cafwyd noson arbennig yng nghwmni Celt a Profiad. Roedd yn bleser wir cael profi'r noson. Diolch eto i John Roberts a Dafydd Owen, Y Groeslon am drefnu, a phawb arall a wnaeth y noson mor llwyddiannus.

Dyna ddigon am y tro - felly Hwyl a fflag unwaith eto.

H.P. Hughes

O'r Archif Lluniau



Mae yna gannoedd o luniau yn archif yr Eco erbyn hyn (wel, o leia yn y bocsus!) Tybed pwy sy'n cofio pryd roedd y llun yma yn y papur a beth oedd yr achlysur? Rhewch wybod i ni.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)


GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea) 676741



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES


J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn; Mrs Menai Jones, Sycharth, Gwêl Fynydd a Mrs Linda Jones, Bryn Eden, Ffordd Glanmoelyn.

MARWOLAETH. Cydymdeimlwn â Mrs E.M. Thomas (Tyll Clawdd gynt) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer annwyl.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Mair Williams, Bron Haul, Ffordd Glanmoelyn ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll am eu cefnogaeth, ymweliadau a phob dymuniad da tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri yn ddiweddar. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Hefyd fe ddymuna Mrs Ella Parry, Rhuddlan ddiolch i'w ffrindiau o ardal yr Eco am bob arwydd o gydymdeimlad tuag ati o golli ei phriod Alun Parry ac hefyd am yr holl gardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd.

Mae Mrs Ella Parry yn chwaer i'r diweddar Mrs Jane Williams, Bryn Eifion, Llanrug.

Dymuna George Lovatt, Brwynog gynt, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80. Gyda diolch arbennig i Tom Davies, Llys Alaw am fynd ati i gyflawni'r dasg enfawr o gasglu llofnodion tua chant o'r bobl a fu'n chwaraewyr neu yn gyd-gefnogwyr o Glwb Pêl-droed Llanrug yn ystod y blynyddoedd y bu o'n gysylltiedig â'r Clwb. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs S.E. Thomas, Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon i'w chyfeillion a'i pherthnasau am yr holl anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd

am ei phen-blwydd arbennig yn 96 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

YSGOL LLANRUG. Fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Cartrefi' cafodd disgyblion Bl. 1a2 gip ar gartrefi trigolion gwlad Lesotho trwy gyfrwng sleidiau gan Mrs Mary Vaughan Jones. Diolch iddi am ddod i rannu ei phrofiadau gyda'r plant.

Cafodd yr ysgol gyfan gip ar wlad Patagonia trwy gyfrwng sleidiau gan Mrs Morfudd Thomas a Mr Cemlyn Jones a oedd wedi ymweld â'r wlad y llynedd er mwyn codi arian at MENCAP.

Dydd Gwener, Mawrth 16 daeth y plant i'r ysgol yn gwisgo eu dillad 'bob dydd' a thalu dirwy am wneud hynny. Casglwyd cant ac ugain o bunnoedd tuag at Ymgyrch 'Trwynau Coch'.

PLAID CYMRU. Cafodd Cangen Llanrug a'r Cylch o Blaidd Cymru ddwy wledd i ddathlu Gŵyl Ddewi nos iau, Mawrth 1. Y gyntaf oedd y bwffe hyfryd a baratowyd yn Y Bistro, Llanberis a'r ail oedd y wledd o gerddoriaeth â'i dilynodd gyda Siân Wheway a'i gŵr, Dafydd Roberts o'r grŵp 'Ar Log' yn cyflwyno eitemau traddodiadol a modern i gyfeiliant y delyn deires, y fflwt a'r bib. Noson hwyliog a difyr a phawb wedi cael mwynhad. Enillwyd y raffl gan Dafydd Roberts a Cliff Williams.

CAPELL Y RHOS. Fore Sul, 4 Mawrth o dan arweiniad y Gweinidog cafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu Gŵyl Dewi. Cymerwyd rhan gan ddosbarth Ysgol Sul Mrs Meirwen Lloyd. Yn dilyn cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mr Len Brooks, Mrs Non Roberts, Mrs Gwen Jones, Mrs Mary Roberts a Mr Robin



Mae naw merch o Ysgol Brynrefail: Sioned Wynne Jones, Emma Jane Smith, Ffion Thorman Jones, Emma Catherine Williams, Lona Owen, Rhiannon Jones, Michelle Allsup, Elin Mai Jones ac Amy Louise Jones wedi codi dros bum can punt tuag at 'Comic Relief' wrth wisgo pyjamas i'r ysgol, sbwnjio Mr Eifion Jones ac aros yn effro drwy'r nos. Buasai'r genethod yn hoffi diolch i drigolion ardal Llanrug a Llanberis am gyfrannu tuag at yr achos.

Williams. Cafwyd anerchiad gan y Gweinidog cyn cyfrannu o Swper yr Arglwydd.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD. Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghapel Hermon ar Fawrth 9 - wythnos yn hwyrach eleni oherwydd yr eira. Gwagedd Samoa oedd yn gyfrifol am y rhaglen. Daeth nifer dda o chwiorydd yr ardal ynghyd i gymeryd rhan yn y gwasanaeth gyda Mrs Mair Jones wrth yr organ. Miss Llinos Davies oedd yn

arwain ac yn cyflwyno anerchiad hynod ddiddorol am wlad Samoa a'i phobl a'u harferion. Mae'n amlwg ei bod wedi edrych i mewn yn fanwl i'r hanes gan ei bod wedi dod o hyd i gofnod lle yr oedd cyfraniad ariannol wedi mynd o Lanrug trwy Gymdeithas Genhadol Llundain i Samoa ym 1799 trwy law Thomas Charles o'r Bala. Hyd heddiw crefydd yw un o elfennau pwysicaf yn niwylliant Samoa gyda 90% o'r trigolion yn Gristnogion.

Y DRAENOG

Ar ddiwrnod braf o Wanwyn mi es i a mam, sef Dilys Baylis, am dro yn y car i fyny Bwlch Llanberis ac yna i lawr i Feddgelert. Fel mae pawb mewn oed, roedd mam a fi eisiau mynd i'r tŷ bach erbyn hyn a dyma ddechrau chwilio am yr arwydd.

'Daco fo,' gwaeddodd Mam, gan bwyntio ymlaen.

Er edrych ac edrych welwn i ddim o'r arwydd yn unlle.

'Dyna fo. Dyna fo,' gwaeddodd eto, 'Yr arwydd glas yna yn y fan acw a P arno.'

'Dim P am pi-pi ydi hwna,' medda fi. 'P am PARK'

Gwen Jones

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Ffôn: 871833 • Symudol: 07778 127394

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil -
mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Ar y dydd cyntaf o Fawrth bu i'r Clwb uchod ddathlu dydd Gŵyl ein nawddsant Dewi hefo cinio traddodiadol a cherddoriaeth Gymraeg yn y cefndir. Ar ôl y cinio bu i sawl un o'r aelodau fynd ati i sôn am Dewi Sant. Hefyd fe gafwyd deuawd gan Miss Nellie Wyn Jones a Mrs Alice Griffith, a phawb yn mwynhau. Rhoddwyd y te i gau'r pnawn gan Mrs Margaret Faulkner a Mrs Betty Bower. Enillwyd y raffl gan Margaret Faulkner. I ddod adref gyda hwy cafodd pob merch swp o genin Pedr.

O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd wedi cael dod o'r ysbyty ond ddim yn ddigon da i gael dod i'w chartref. Hyderwn y bydd yn cryfhau o ddydd i ddydd ac y gwelwn hi adref yn lled fuan. Mae ar hyn o bryd hefo'i chyfnither yn Neiniolen. Hefyd rwyf yn deall fod yna rai eraill yn yr ardal yn cwyno. Hyderaf felly ar ddechrau tymor y Gwanwyn y bydd pawb yn gwella fel y bydd y dydd yn ymestyn a'r haul yn cynhesu.

CANEUON FFYDD. Mae yn siŵr erbyn hyn fod pawb oedd am gael y Llyfr Emynau newydd wedi ei dderbyn. Mae yn anferth o fawr ac yn amhosibl ei gael i sefyll ar y piano. Rwyf yn siŵr ein bod yn falch o gael llongyfarch Mrs Enid

Jones o Dal y Sarn, neu fel yr ydym ni yn ei hadnabod yn yr ardal yma, Enid Roberts, Cae Canol, Fachwen am lwyddo i gael emyn ynddo, a'r dôn i'r emyn yma wedi ei chyfansoddi gan ei mab, Robert Arwyn. Llongyfarchiadau i chwi eich dau a daliwch ati.

CLWYF Y TRAE D A'R GENAU. Rwyf yn siŵr ein bod fel ardal yn cydymdeimlo yn fawr â'r ffermwyr yn ystod y dyddiau tywyll hyn, gan na wyddant o ddiwrnod i ddiwrnod beth sydd yn digwydd i'w hanifeiliaid. Yr ydym yn gwybod eu bod yn lecio cwyno, ond coeliwch fi mae ganddynt le i gwyno yn awr.

Gallaf gofio yn ôl i Hydref 1957 pryd y daeth y cwmwl du dros yr ardaloedd yma, a bu i bawb a oedd yn ffermio orfod difa eu hanifeiliaid. Cofiaf yn dda am y diwrnod y torrwyd y newydd i'm diweddar rieni fod yr oll o'u hanifeiliaid yn cael eu difa y diwrnod canlynol. Gwelwn wyneb mam yn gwelwi, dyma ergyd fawr iddi hi, fy nhad a'm taid. Anifeiliaid oeddynt wedi eu magu o'u genedigaeth a phob un hefo enw fel Shani, Seren a Daisy. Y peth mwyaf digalon amdano oedd nad oedd dim arnynt.

Gadael cartref fel teulu y diwrnod canlynol am Sir Fôn at deulu fy nhad hefo bws wyth y bore ac adref am ddeg y nos. Ar ôl cyrraedd adref fy nhad yn mynd am y beudy, rhywbeth arferol, ond y noson honno yr oedd yn wahanol. Doedd dim eisiau iddo newid ei ddillad, a doedd neb yno i ymweld â hwy. Yr oedd y cyfan wedi mynd ond yr ieir. Daeth yn ôl i'r tŷ yn ei ddaurau (y tro cyntaf erioed imi weld fy nhad yn crio) a'm taid, oedd ddim ond wedi colli nain 6 wythnos ynghynt, yn mynd am y llofft ac yn dod yn ôl hefo'i lyfr emynau. Trodd i emyn nad oes fawr o ganu arni hi heddiw:

'Braint, Braint,

Yw cael cymdeithas gyda'r Saint.'

Ni wnaf byth ei anghofio, fe'i canodd gydag arddeliad yn ei lais tenor ysgafn, ac meddai ar ôl gorffen, 'Fe awn yn syth i weddi.' Pysuraf i ddweud nad peth newydd oedd hyn i taid, y peth oedd yn wahanol y noson yma

oedd iddo ganu a gweddïo i ni fel teulu. Cyn mynd i gysgu'r nos yn ei ystafell wely y gwnâi bob nos arall. Yr oedd yn credu yn gryf mewn gweddi.

Y diwrnod canlynol roedd arogl llosgi dros yr ardal. Ar dir Chwarel Goch y bu'r goelcerth a'r diweddar Mr a Mrs Jonnie Griffith, Tŷ Coch yn mynd adref ar ôl aros noson yn Tŷ Capel MC yn cael sioc arall drwy ddarganfod fod yr ieir wedi mygu i farwolaeth hefo'r mwg.

Ni chaed ailddechrau ffermio am 6 mis, ac wrth gwrs nid y pris a gafwyd am yr hen anifeiliaid oedd ei angen yn awr, ond llawer mwy,

ac nid oedd yr un Shani na Seren i'w cael.

Mae'r clwyf yn rhywbeth na ellir byth ei anghofio. Cydymdeimlaff yn fawr â'r ffermwyr gan feddwl mai Gwanwyn tawel a wel rai ohonynt. Dim ŵyn yn prancio yn y caeau a'r buarth, lle bu prysurdeb, yn wag. HOLIADUR 'POBL MEWN CYMUNEDAU'. Dylai unrhyw berson sydd wedi derbyn holiadur i'w llenwi oddi wrth Gyngor Gwynedd (ond heb wneud hynny eto) ei llenwi a'i dychwelyd i'r Cyngor gyda'r troad. Bydd eich barn ynglŷn â'r cynllun yn hanfodol ar gyfer paratoi'r ffordd ymlaen.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Y CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror. £40: Mr Emrys Hughes, Treflan Isaf; £25: Mrs Gwenda Griffiths, Trefeddyg; £10: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Aled Griffith, Stad Tŷ Hen yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed a Lowri Huws yn cyrraedd ei un-ar-hugain. Dymunwn bob bendith i'r ddau ohonoch yn y dyfodol.

BEDYDD. Fore Sul, 25 Chwefror yng Nghapel Bethel gyda'r Parch John Owen, Bethesda yn gweinyddu a Miss Eirlys Jones wrth yr organ bedyddiwyd Carwyn, mab bychan Rhian a Clive Owen, Stad Tŷ Hen. Gobeithiwn yn fawr fod Carwyn wedi gwella, gofrfu iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

YMDDEOLIAD. Dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus i Mr Dave Parry, Stad Bro Waun. Roedd yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Sian a George, Hafod Wen ar enedigaeth mab bychan, George.

GWELLHAD. Gobeithio y bydd Mrs Doris Roberts, Dwyros; Mrs R.W. Roberts, 9 Stad Bryn Golau a Mrs Angela Parry, 7 Stad Bryn Golau yn gwella wedi i'r tair gael damwain yn eu cartrefi.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Brian Parry,

Cefnogwch
ein
Hysbysdebwyr

Stad Pant y Waun; Mrs Sarah Lewis, Stad Tref Eilian; Mr Ovary, Pant y Waun; Mr Richard Charge, Llifon a Mrs Dilys Griffith, Stad Tref Eilian sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hyderwn eich bod yn cryfhau ac yn gwella.

Hefyd anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Eryl Thomas, prifathrawes yr ysgol sydd wedi derbyn llawdriniaeth.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr R.W. Roberts, 9 Bryn Golau yn ei brofedigaeth o golli chwaer.

MARWOLAETH. Roedd clywed am farwolaeth sydyn John Huws yn ddychryn mawr i drigolion y pentref ac i'w gydnabod ledled Cymru. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i dad, Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris, â'i chwaer Iris, Stad Tŷ Hen ac â Heulwen a'r plant, Lowri, Rhys ac Elin, Argoed yn eu profedigaeth drist.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

CHIROPDIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati



BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: **DANNY A NERYS ROBERTS**

A HEFYD
COFIWCH AM EIN

BeliBistro

Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Mr W. Arthur Williams, Cadeirydd; Wavel Roberts, Llywydd; Hugh Morgan, Trysorydd yn cyflwyno sic o £400 i Nyrsus Ardal y Pedwar Plwyf.

GŴYL DDEWI. Cafwyd noson bleserus iawn yn Nhy'n Llan yn dathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1. Mwynhawyd adloniant traddodiadol Gymreig yng nghwmni'r grŵp gwerin poblogaidd, Pigyn Clust a chafwyd cawl cennin cartref bendigedig. Diolch i Anne a Jim am drefnu'r noson.

DIOLCH. Dymuna Anne a Jim Cumberton, Ty'n Llan ddiolch i bawb a gefnogodd y noson Gŵyl Ddewi yn y dafarn, yn arbennig felli y grŵp gwerin Pigyn Clust am eu cyfraniad hael. Llwyddwyd i godi'r swm o £130 tuag at Gronfa

Motor Neurone trwy gynnal raffl ar y noson.

LLONGYFARCHIADAU i David a Tammi, 2 Tan y Bryn ar eu dyweddïad diweddar. Pob lwc i'r ddau ohonoch yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Sara Davies, 1 Tan y Bryn ar basio ei arholiadau Cyfrifo gyda chwmni J. Emyr Thomas ym Mangor. Da iawn ti.

YMRYSION CŴN DEFAID NANT PERIS A'R CYLCH. Cyfarfu'r Pwyllgor yn ddiweddar er mwyn cyflwyno sic o £400 i Nyrsus Ardal y Pedwar Plwyf ar ran yr ymrison.

PEN-BLWYDD HAPUS i Rhian Pritchard, Ty Isa a oedd yn 60 yn ddiweddar. (Llun da yn yr Herald!) **DYMUNIADAU GORAU** i Mr Gwilym Searell, 4 Nant Ffynnon sydd yn yr ysbyty ar y funud. Cofion hefyd at Mr Arthur Williams, Pennant.

Da clywed eich bod yn gwella a gobeithiwn eich gweld adref yn fuan.

PEN-BLWYDD HAPUS i Mrs Nancy Williams, Tan y Bryn ar gyrraedd ei 85ain oed ar Fawrth 28. Gobeithio y cawsoch ddiwrnod wrth eich bodd.

LLONGYFARCHIADAU i Sian a Jessica Sibley, Llys Awel ar ennill raffl yn y Spar. Y wobr oedd aelodaeth blwyddyn gyda chlwb jiwdo Llanberis i'r ddwy ohonynt. Bydd Nant Peris yn lle diogel iawn o hyn ymlaen!



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521


Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



Plant blwyddyn 5/6 yn barod am y gwely!



Plant blwyddyn 1 yn mwynhau siocled poeth a chacen.

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org



CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA
Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed
Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verruca; Cyn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: **(01248) 605450** neu
07747 696267 (symudol)

G. EVANS

**ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR**



Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor yn 'Angorfa', Llanberis ar y 15fed o fis Mawrth gyda'r Cyngorydd Dei Tomos yn y gadair.

Croesawyd Mr Eurwyn Griffith, Swyddog Adfywio ardal Caernarfon / Peris i'r cyfarfod, a chafwyd anerchiad ganddo ar Gynllun Cwlwm Gwledig sydd yn olynu'r hen Gynllun Adfywio Bro. Eglurodd mai prif amcan y Cynllun fydd sbarduno a chefnogi datblygiadau menter lleol er mwyn creu gwaith a swyddi parhaol. Mae croeso i unigolion a grwpiau lleol gysylltu ag ef ar (01286) 870977.

Llongyfarchwyd y Cyngorydd John Pritchard ar ei erthygl yn 'Eco'r Wyddfa' yn amlinellu'r cyfyng-gyngor ynglŷn â dyfodol 'Angorfa'. Derbyniwyd pedwar o lythyrau - oddi wrth Bwyllgor y Carnifal, y Clwb Pêl-droed, Cymdeithas yr Eglwys a Chlwb y Mamau - yn mynegi pryder ynglŷn â'r ffaith y gallai'r adeilad gau. Ni ddaethpwyd i unrhyw benderfyniad terfynol ynglŷn â dyfodol yr adeilad, ond penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd a'r Amgueddfa Lechi i weld a fyddai diddordeb ganddynt mewn arddangos amgueddfa T. Rowland Hughes.

Derbyniwyd adroddiad am nifer o safleoedd mewn perchnogaeth gyhoeddus o fewn y pentref oedd angen eu tacluso a nodwyd fod tair o feinciau angen eu trwsio a'u peintio. Penderfynwyd hysbysebu am weithiwr achlysurol i wneud mân waith trwsio a thacluso o amgylch y pentref.

Ystyriwyd nifer o geisiadau cynllunio, ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i osod edrychiad newydd ar siop yn rhif 64 Stryd Fawr, Llanberis; i godi estyniad yn 48 Maes Padarn, Llanberis; i newid amod parthed Gardd Dê ym Mhen Ceunant Isaf, Llanberis nac i godi estyniad yn Nhŷ Ucha'r Ffordd, Pentre Castell.

Penderfynwyd gwrthwynebu cais i godi polyn telegyfathrebu gerllaw'r gysgodfan bws ar y palmant yn Nant Peris. Penderfynwyd hefyd ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri ystyried y posibilrwydd o gymryd camau i waredu pentref Nant Peris o bolion a gwifrau trydan a thelegraff yn unol â datblygiadau tebyg mewn pentrefi bychan gwledig ym Mharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd, gogledd Lloegr.

Yn unol â'r cyfyngiadau o ganlyniad i effaith y clwy traed a'r genau, adroddwyd na wnaethpwyd unrhyw waith clirio yn y fynwent dros yr wythnosau diwethaf, ac na chafodd unrhyw waith ei wneud ar y llwybrau cyhoeddus yn yr ardal. Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Gwynedd at broblemau gorlif dŵr yng nghyffiniau Tan y Bryn, Nant Peris oherwydd gwelliannau i wyneb Llwybr 34 yno, ac at broblem diogelwch, oherwydd cyflwr wal, ar Lwybr 22 y tu cefn i Dai Eilian, Llanberis.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd fod gwelliannau i'w gwneud ar y briffordd ger Pont yr Afr, Nant Peris dros yr wythnosau nesaf. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd am ddifrod a wnaethpwyd i focs trydan y goleuadau Nadolig yn y Stryd Fawr, Llanberis, a'r ffaith fod y gwaith diogelu wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i Mr Alun Williams o Wasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd i gyfarfod nesaf y Cyngor i roi anerchiad ynglŷn â'r cyfleusterau dysgu gydol oes sydd wedi eu lleoli yn y llyfrgell leol.

Derbyniwyd cais am gefnogaeth i Gam II Partneriaeth Llwybrau'r Ucheldir oddi wrth y Parc Cenedlaethol, a phenderfynwyd gefnogi'r cais.

Penderfynwyd ymaelodi â Chymdeithas Cyngorau Bro a Thref Cymru am y flwyddyn nesaf.

Derbyniwyd dau gais am gymorth ariannol ond, yn unol â pholisi'r Cyngor, fe'u gohiriwyd gan fod penderfyniadau am grantiau eisoes wedi eu hystyried am y flwyddyn ariannol bresennol.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â dŵr yn sefyll ar y ffordd islaw Fron Oleu ac i gyfeiriad Llain Wen; ac ynglŷn â gor-dyfiant drain ar y briffordd ger y fynedfa i'r lanfa.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' ar nos Iau, 19eg o fis Ebrill am 7.00 o'r gloch.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Mawrth 5. Gweinyddwyd Cymun y Grawys gan ein Rheithor, Y Parch Phillip Hughes. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd materion oedd wedi codi gan Mrs Margaret Latham. Yr oedd y lluniaeth yng ngofal Miss Meira Williams a Mrs Dorothy Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Kath Jones. Rhoddwyd y raffl gan Meira ac fe'i henillwyd gan Mrs Enid Taylor. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

MARWOLAETH. Yn dawel yn ei gartref dydd Sadwrn, 17 Chwefror ar ôl gwaeledd byr bu farw Mr Idwal Williams, Elidir View, Bwlch yn 78 mlwydd oed. Gŵr tawel oedd ac yn hynod gymwynasgar. Bu'n aelod ffyddlon o Gôr Meibion Caernarfon a Chôr Meibion Dyffryn Peris. Roedd y dorf a ddaeth i'w angladd dydd Iau, Chwefror 22 yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis yn dyst o'i boblogrwydd. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac yna yn Amlosgfa Bangor gan y Parch Phillip Hughes a Mr Derek Jones.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs Mair Williams a'r plant, Gwyn, Blodwen, Meirion ac Eirian, ei wyrion a'i wyresau a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

CAPEL Y TABERNACL. Nos Sul, Chwefror 25 derfnyddiwyd y llyfr emynau newydd 'Caneuon Ffydd' am y tro cyntaf a chafwyd pregeth addas iawn ar gyfer yr achlysur gan y Parch Emrys Thomas, Caernarfon. Diolch i Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail am ddanfôn y llyfrau inni. Dyma drefn yr oedfaon am fis Ebrill:

- 1: Clwb y Plant am 2.00;
Parch John Treharne am 4.00
- 8: Cymanfa Dosbarth Cwm-y-glo am 2.00;
- 15: Y Pasg, Gwasanaeth am 5.30;
- 22: Clwb y Plant am 2.00
Parch Dafydd Job am 4.00
- 29: Clwb y Plant am 2.00
Gwasanaeth i'w drefnu.

YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO Yn anffodus, oherwydd Clwyf y Traed a'r Genau ni allwn drefnu unrhyw weithgareddau yn yr ysgol ar hyn o bryd ond mi fyddwn yn gwerthu raffl ar gyfer y Pasg a'r gobrau fydd wyau Pasg amrywiol. Gobeithiwn gynnal cystadleuaeth hefyd i'r plant.

Enillwyd gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Ionawr gan Mrs Enid Price, Mr Gwyn Daf Lloyd Hughes a Mr Ted Roberts. Ym mis Chwefror aeth y gwobrau i Mrs Avril Jones, Mrs Doreen Fleetwood a Miss Sharon Roberts.

Diolch i bawb a gyfrannodd at ddiwrnod heb wisg ysgol. Casglwyd £60 tuag at Ddiwrnod y Trwyn Coch.

Diolch i bawb sy'n casglu talebau Tesco ar gyfer cyfrifiaduron a hefyd y pcedi creision. Daliwch ati i'n cefnogi os gwelwch yn dda.

Yn ystod y mis diwethaf ymunodd Corinna â'r Dosbarth Meithrin ac mae wedi setlo'n

ardderchog yng nghanol y plant lleiaf. Croeso mawr iddi. PWYLLGOR Y NEUADD.

Cynhaliwyd Pwyllgor y Neuadd Gymuned ar Fawrth 15. Gan mai dim ond criw bychan iawn oedd yn bresennol gwneir apêl drwy gyfrwng yr Eco i fwy o drigolion Cwm-y-glo a Brynrefail ddod i'r cyfarfod nesaf ar Ebrill 26 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Hwyrach nad yw rhai pobl yn ymwybodol mai Neuadd y Gymuned a'r Ganolfan yw'r Neuadd a'r Ystafell gyfagos sydd yn yr ysgol.

Noddir y neuadd yn ariannol gan ein Cyngor Cymuned ond rhaid i ni fel pentrefwyr gynnal gweithgareddau yn gyson yn enw'r Pwyllgor uchod. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwbl ar wahân i'r rhai a drefnir gan yr ysgol a'r Gymdeithas Rhieni/ Athrawon gweithgar sy'n gefn iddi.

Mae'n fwrriad cynnal diwrnod o Hwyl a Sbri tua diwedd mis Mehefin. Bydd hwn yn ddiwrnod fydd yn dod a Brynrefail a Chwm-y-glo at ei gilydd gan ddefnyddio'r cae chwarae, Menter Fachwen, Caban y Cwm, buarth yr ysgol a'r Neuadd Gymuned. Dewch i gyd i'r cyfarfod i drefnu diwrnod ddylai fod yn llwyddiannus dros ben - cofiwch mae angen llawer o syniadau a help ar y dydd. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth. BWYD A MWY YNG NGHABAN Y CWM. Mae Caban y Cwm yng Nghwm-y-glo ar agor bob dydd yn ystod yr wythnos rhwng dydd Llun a dydd Gwener, ac yn cynnig bwydydd cartref o safon uchel am brisiau rhesymol. Does unman gwell am fwydydd cyflawn mewn awyrgylch gyfeillgar a braf.

Ers ei sefydlu ddwy flynedd yn ôl, mae'r caffi wedi ennill canmoliaeth gyson gan bobl o bell ac agos a bellach mae'n gyrchfan i nifer cynyddol o bobl y cylch yn ogystal ag ymwelwyr.

Yn ogystal â darparu prydau bwyd a chroeso cynnes i bawb mae Caban y Cwm hefyd yn ganolbwynt i nifer cynyddol o weithgareddau amrywiol.

Un o'r nosweithiau mwyaf poblogaidd yw nos Fawrth, pryd y cynhelir y Clwb Cyfri Caloriau. Mrs Ann Owen, Goruchwyliwr y Caffi a sefydlodd y Clwb er mwyn sicrhau bod eu cwsmeriaid yn cadw golwg ar eu pwysau wrth fwynhau'r arlwy yn y Caffi! Erbyn hyn mae dros 70 o aelodau yn perthyn i'r Clwb ac, fel arfer, bydd rhwng 30-40 o'r aelodau yn mynd yno i bwysio a chael cyngor arbenigol pe dymunir. Bydd Mrs Einir Pritchard yn pwysio pawb ac ar gael i roi cyngor gwerthfawr. Mae Dr Ruth Dafydd wedi helpu i drefnu rhaglen o sgysiau diddorol gan siaradwyr gwadd. Y siaradwraig nesaf fydd Ms Olwen Jones a fydd yn cyflwyno sylwadau ynglŷn â Seicoleg colli pwysau ar nos Fawrth, 3 Ebrill gan gychwyn am 7.00 o'r gloch. Mae croeso cynnes i bawb i'r noson yma, neu unrhyw noson arall.

Manylion pellach: Menter Fachwen, Tŷ Llundain, Cwm-y-glo. Ffôn/Ffacs: (01286) 872014. e-bost: menter@menterfachwen.co.uk y wê: www.menterfachwen.co.uk

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

**Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DYMUNA Mary, Richard a Rhys, Y Ddôl, ddiolch i'w llu ffrindiau am eu cefnogaeth parod drwy air, llythyr a gweithred yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Eluned a Brian, Garth, 2 Glan Llyn ar ddathlu eu Priodas Arian ar Ebrill 17.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Mrs Mary Wyn Jones, 55 Y Ddôl yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mr Martin Eckley, Erwau'r Gwynt yn dilyn ei driniaeth yntau.

Mae Ann Parry, Cilcain wedi cael llawdriniaeth i'w chlust yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddi hithau hefyd.

NEWYDDION. Fel arfer mae'r newyddion yn cyfeirio at weithgareddau a ddigwyddodd yn

yr ardal yn ystod y mis. Y mis yma, er fod rhai gweithgareddau wedi eu cynnal y newyddion mwyaf yw na fu'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd; ni chynhaliwyd swper Gŵyl Ddewi Merched y Wawr ac ni fu'r henoed yn yr ysgol yn dathlu Gŵyl Ddewi. Mae'r Clwy Traed a'r Genau wedi effeithio arnom i gyd ac mae amaethwyr yr ardal dan bwysau mawr. Gobeithio yn wir y bydd cysgod y Clwy yn codi yn fuan iawn.

**Sgynnoch chi stori?
Beth am ei hanfon i'r Eco erbyn y rhifyn nesaf?**

Hen Luniau Difyr

Diolch i Ken Jones, Blaen-y-Ddôl, Llanberis am gael benthyc y ddau lun yma.

Mae'r naill yn dangos car ar gopa'r Wyddfa yn 1928, a'r llall yn dangos ardal Limbo (tua 1900) cyn codi tai Rhes Efrog a Thai'r Faenol.



LLYTHYR

Annwyl Olygydd

'Cyfeiriadau Cymru'

Byddwn yn dra diolchgar pe baech yn medru cyhoeddi'r isod yn eich Papur Bro.

Ydych chi'n byw mewn tŷ gydag enw Cymraeg arno? Oes yna enw Cymraeg ar eich stryd chi? Ydych chi'n cynddeiriogi pan fyddwch chi'n derbyn rhywbeth drwy'r post gyda'r cyfeiriad Cymraeg yn llawn camgymeriadau?

Bwriad prosiect uchelgeisiol gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru Bangor yw cael gwared o wallau o'r fath drwy gasglu a gwirio cyfeiriadau sydd ag elfennau Cymraeg ynddynt. Bydd wedyn yn adeiladu cronfa ddata o gyfeiriadau Cymraeg a fydd wedi ei dilysu.

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio cronfau data yn eu gwaith bob dydd i gofnodi manylion am gwsmeriaid neu i dargedu cwsmeriaid posib drwy lythyr â nhw. Ar hyn o bryd maen nhw'n defnyddio cronfau data cyffredinol - heb fod wedi eu gwirio o ran ansawdd unrhyw elfennau Cymraeg. Ar ôl ennill contract i wneud y gwaith i Cyfeiriadau Cymru Cyf. bydd Canolfan Bedwyr y

Brifysgol ym Mangor yn gwirio pob cyfeiriad gydag elfen Gymraeg ynddynt, boed yn enw fferm, stryd, pentref neu sir. Bwriad y cwmni wedyn yw gwerthu'r gronfa o gyfeiriadau i gwmnïau gan sicrhau fod pob cyfeiriad yn gywir ac wedi ei ddilysu.

Eisoes penodwyd ymchwilydd i wirio'r cyfeiriadau sydd yn bod, ond mewn achosion o ansicrwydd bydd yn rhaid galw ar Gynghorau a chyrff eraill ar draws y wlad am gymorth.

Rydym yn awyddus i gysylltu gyda grwpiau lleol o fewn cymunedau a fydd yn fodlon dilysu rhai o'r cyfeiriadau yn eu hardaloedd hwy, boed yn wirio enw fferm, neu gadarnhau bod enw stryd yn gywir yn y Gymraeg. Byddem hefyd yn croesawu galwadau gan unigolion er mwyn gwirio cyfeiriadau. Dyma ble gallai darllenwyr y Papurau Bro chwarae eu rhan.

Os gallwch chi helpu, yr ymchwilydd i gysylltu â hi yw Gwenno Roberts, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru, Bangor. Ei rhif ffôn yw (01248) 383293 a'i chyfeiriad e-bost yw: cbs602@bangor.ac.uk

Yn gywir

Dr Geraint Wyn Jones
Cyfarwyddwr



Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

RACCA
PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605




Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Diwrnod y Llyfr 2001 CROESAIR



Cynhaliwyd Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, Dydd Gŵyl Dewi, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig i'r papurau bro i gyd drwy Gymru.

Ar Draws

3. Nofel gan Eirug Wyn (4,4,3)
7. Un o nofelau Marcel Williams, *Gwalia* ar ----- (6)
8. *Clwb* ----- S4C (6)
11. Cyfrol o storïau gan Mihangel Morgan (4,5,6)
14. Gorchudd pob llyfr (5)
16. Gweler 17 i lawr
17. Nofel gan Marion Eames, *I Hela* ---- (4)
19. *Y Fro a'r* ---- Dafydd Owen (4)
20. ---- *Ha*, caneuon gwerin i blant (4)
21. Perthynas Deian i Loli (5)
24. Hunangofiant Alan Llwyd (4,2,5,4)
28. ---- *Kate*, ---- *Saunders* (6)
30. Math o esgid a theitl llyfr i blant (6)
31. Awdur *Y Llosgi a Crac Cymraeg* (5,6)

I Lawr

1. ---- *Cymru*, John Davies (5)
2. Hoff gêm Bethan Gwanas? (5)
4. Pryd blasus i Wil Cwac Cwac? (6)
5. *Bywyd* ----, Gwynfor Evans (5)
6. Stori antur gan Bob Eynon, ---- *y Dyn Gwyn* (3)

9. ---- *Drwg Adda*, hunangofiant Caradog Prichard (4)
10. Mae llyfr Roy Stephens yn llawn ohonynt (5)
12. Math o gic yn Amdani (5)
13. ---- *a Chynhyrfu*, Sioned Puw Rowlands (5)
15. *Y Dylluan* ----, Angharad Jones (3)
16. *'Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod* - ----' (Gwenallt) (4)
- 17 ac 16 ar draws. Nofel a enillodd Wobr Goffa Daniel Owen 2000 (3,1,3)
18. *Anifeiliaid* ----, un o lyfrau Cyfres Llyfrgell Lolipop (5)
19. ---- Lewis Roberts (5)
22. ---- Vaughan Jones, mam Sali Mali (4)
23. *Beth am* ---- *Tân*, hanes llosgi'r ysgol fomio gan Karl Davies (6)
25. *Cymru'r* ---- *Canol*, Robert Richards (5)
26. Bardd y Dail Pren (5)
27. -- -- *Grug*, cyfrol o storïau byrion gan Kate Roberts (2,2,1)
29. Hunangofiant R.S. Thomas (3)

Bydd y croesair arferol yn ei ôl y mis nesaf, ynghyd ag atebion Croesair mis Mawrth

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

CALENDER MIS EBRILL

2. Llun: **DEINIOLEN**. Cymdeithas Llandinorwig. Trefnu Blodau gyda Mrs Theta Owen.
3. Maw: **CWM-Y-GLO**. Cyfarfod yn Caban y Cwm am 7.00 gyda Mrs Olwen Jones.
5. Iau: **BRYNREFAIL**. Cymdeithas y Capel yn y Festri am 7.00. Gwraig wadd – Annette Bryn Parri, Deiniolen.
8. Sul: **CWM-Y-GLO**. Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel y Tabernacl am 2.00.
12. Iau: **DEINIOLEN**. Gwasanaeth Nos Iau Cablyd am 7.00.
13. Gwener
y Groglyth: **DEINIOLEN**. Awr Dawel yn yr Eglwys o 2.00–3.00.
15. Sul
y Pasg: **CAEATHRO**. Gwasanaeth teulu yn y Capel am 10.00
DEINIOLEN. Cyfarfod Pregethu Cefnywaun am 10.00 a 5.00 Pregethir gan y Parch Emlyn Richards.
23. Llun: **BRYNREFAIL**. Sefydliad y Merched.
28. Sad: **LLANRUG**. Undeb y Mamau. Bore Coffi yn Cil-y-bont am 10.00.

RHODDION

Mawrth

£20: Mrs Ada Jones, Ty'n Twll, Brynrefail;

£10: Mrs Gwen Jones, Llanrug; Mr H.R. Jones, Stryd y Ffynnon, Llanberis; Mr Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis; Gwilym Williams, Bryn Eifion, Llanrug; Margaret W. Roberts, Rhedynog, Ffordd Bethel, Caernarfon.

£5: Miss Louie Pritchard, Berth, Llanberis; Mrs O. Roberts, 3 Rhes y Faenol, Llanberis; I. Jones, Borth-y-gest; Mrs S.E. Thomas, Min y Rhos, Llanrug; Michelle a Neil, Bon Marche, Llanberis; Ted a

Marjorie Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo; Mrs Mair Williams, Bron Haul, Llanrug

£3: Elizabeth Evans, Blaen Parc, Bethel; Teulu y diweddar Hugh Vaughan Evans, Clwt-y-bont gynt.

Atodiad LLANRUG

MERCHED Y WAWR. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 10 yn Festri Capel Bontrhythallt, nid yn yr Ysgol Gynradd fel arfer.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CHWARAEON

Digon i'w Cadw i Fyny

Mae'n amser pryderus iawn ar Ffordd Farrar y dyddiau hyn gyda chryn frwydr yn wynebu'r tîm cyntaf i geisio aros yng Nghynghrair Cymru. Bu tipyn o godi calon yn ddiweddar ond mae'r diffyg gemau oherwydd y clwy yn amharu ar lif chwarae. Buasai'r pwysau'n cynyddu'n sylweddol pe byddai rhaid chwarae lluo o gemau mewn cyfnod byr ar ddiwedd y tymor – a hynny gyda charfan gweddol fychan. Golyga diffyg gemau ddiffyg arian wrth y glwyd a dyna inni fwy o bwysau. Anodd yw denu gwaed newydd – yn chwaraewyr a gweinyddwyr pan mae'r tîm yn y fath sefyllfa. Nid yw traddodiad yn golygu dim yn y fath sefyllfa.

Buasai cael Bangor a Chaernarfon yng Nghynghrair Cymru y tymor nesaf yn gaffaeliad mawr i bêl-droed yr ardal, yn enwedig i'r ieuenctid. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi sefydlu system o hyfforddiant a chwarae yn seiliedig ar glybiau'r gynghrair. O hyn ymlaen, bydd yn rhaid i bob clwb gael adran ieuenctid, dan ofal hyfforddwyr trwyddedig. Bydd y meithrinfeydd lleol yma yn sicr o gryfhau ymwybyddiaeth lleol, a sefydlu system ddatblygu o'r oed ieuauc i'r tîm hŷn. Os oes ambell 'seren' yn datblygu yna mae cyfle i'r clwb wneud arian o drosglwyddiadau.

Yn sicr, mae perfformiadau Lee Trundle i Wrecsam wedi ei drosglwyddiad o Rhyl yn enghraifft

o'r talentau sy'n bodoli yn y cynghreiriau 'llai'. Roedd y £50,000 hefyd yn gymorth mawr i glwb Rhyl.

Un a ddaeth yn y cyfeiriad arall sy'n denu'r sylw yn lleol. Wedi amser ansefydlog yng Nghaerefrog daeth Marc Lloyd Williams yn ôl i Fangor.

Ar gychwyn y tymor gwantan iawn fu'r goliau a Marc, fel prif ymosodwr, yn dioddef o ddiffyg gwasanaeth. O symud Clayton Blackmore i safle'r ysgubwr daeth mwy o sefydlogrwydd a mwy o hyder i greu i'r canol cae. Dechreuodd Marc gael y bêl o'i flaen, ble mae ar ei orau yn defnyddio ei gryfder a'i gyflymder. Yn ddiweddar, mae'r goliau yn llifo a safon y goliau yn denu sylw. Ef yw capten y clwb ac yn sicr, mae yn arwain 'o'r blaen'.

Os bydd Bangor yn llwyddiannus o aros i fyny, bydd llawer o'r clod i Marc. Mae'r berthynas arbennig sydd ganddo â'r ffyddloniaid wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r clwb. Braf nodi hefyd nad yw Marc wedi rhoi'r ffidil yn y to ynglŷn â dychwelyd i Gynghrair y Nationwide rhyw ddydd. Y mae sgoriwr cyson – yn enwedig un â throed chwith gelfydd – yn siŵr o fod yn gaffaeliad.

I goroni y rhediad da enillodd Marc y Tlws Chwaraewr y Mis am fis Chwefror ar raglen boblogaidd Radio Cymru, 'Ar y Marc'. Enw addas iawn onid e?

Roeddem yn dathlu 25 mlynedd yr Eco y mis diwethaf. Tybed pwy fedr ddweud pryd y cyhoeddwyd y 4 llun yma, a beth oedd yr achlysur?



Pŵl a Dartiau

Mae'r tymhorau yn prysur ddirwyn i ben ac mae'n ymddangos y daw ambell dlws i fro'r Eco. Mae tîm dartiau merched y Bull, Deiniolen yn ffefrynau cryf am goron Adran Un y Gynghrair. Taro'r Bull yn rheolaidd, yn amlwg!

Ym myd y pŵl mae tîm 'A' Penbont, Llanrug yn ffefrynau i gipio Tlws y brif adran. Mae'n agos iawn yn adran dau gyda thîm 'A' y Bedol ond dau bwynt tu cefn i'r ddau dîm o'r Felinheli – y Vic a'r Haven. Yn y drydedd adran mae tîm Nant Peris yn brwydro am yr ail safle. Pob lwc i'r timau hyn – mae tipyn o dalent yn hogia a genod y wlad!

Ai dyma pam y mae'r Cofis wedi ffurfio eu cynghrair dartiau eu hunain y tymor nesaf. A minnau'n meddwl mai 'cymysgu' oedd hanfod chwaraeon.

Yr Eco Gwyddelig

Cefais lythyr yn ddiweddar o Ardara yn Swydd Donegal. Efallai i chwi gofio am fy erthygl ar bêl-droed Gwyddelig ychydig yn ôl. Roedd y llythyr yn cydnabod derbyn yr erthygl ac mae, erbyn hyn, wedi ei fframio ar fur Tafarn Doherty's ar stryd fawr Ardara. Os byddwch yn y cyffiniau rhywro, galwch i mewn. Mae'r 'du' yn werth ei flasuo yno!

Siomiant

Yn naturiol, nid oes adroddiadau o gemau o Ysgol Brynrefail y mis hwn. Oherwydd y gwaharddiadau ni fu'n bosibl i chwarae'r gemau pwysig sy'n wynebu'r timau rygbi a phêl-droed, na'r rhedwyr traws gwlad. Gobeithio y daw diwedd i'r clwy dieflig yn fuan ac y daw ambell Dlws i goroni blwyddyn ei chanmlyddiant.

Ystadegyn neu Ddau

A hithau'n hesb am gemau yn lleol, rhaid hel meddyliau a chribo drwy sawl ffynhonnell i lenwi'r golofn y mis yma. Dechreuais gynnal cwis gyda mi fy hun.

Pa chwaraewr a chysylltiadau lleol sydd â mwyaf o gapiau i Gymru? Wyn Davies (?)

P'r un oedd y dorf fwyaf mewn gêm gynghrair yn lleol? Llanberis v Llanllechid.

Ac yna daeth cwestiwn rhyfedd i'm mhen. Pa chwaraewr o'r ardal sydd wedi chwarae mwyaf o gemau yng Nghynghrair Cymru. Yn syth meddyliais am Marc Lloyd Williams, ond tybed a yw'r cyfnod pryd y bu yng Nghynghrair Lloegr wedi colli nifer o gemau iddo.

Ym mhamffledyn gwyb y Gynghrair Genedlaethol, rhestrir pob chwaraewr sy wedi chwarae yn y Gynghrair. Mae ambell un o'r ardal ar y rhestr sydd, erbyn hyn, wedi cyrraedd y llythyren S. Ydy hynny yn rhoddi cliw i chwi. Tâl, cyhyrog, cefnwr, o Lanberis! Ie, Colin Saynor. Rhwng tymhorau 1992-93, ac 1997-98 chwaraeodd Colin i dimau Porthmadog a Chaernarfon yn y Gynghrair. Wn i ddim a yw Colin wedi cadw cofnod, ond dyma ei record gyflawn yn y Gynghrair.

I Borthmadog: 188 gêm llawn; 4 fel eilydd a sgorio 14 gôl.

I'r Cofis: 2 gêm llawn.

Tipyn o record. Gyda llawn, rhaid cofio y brawd, Terry, hefyd. Yn nhymor 1997-98 chwaraeodd Terry 2 gêm llawn i Borthmadog ac 1 fel eilydd. Rhaid aros i'r rhestr gyrraedd y llythyren W i weld ai Colin sydd yn dal y record!